Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17



Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2016-17**

Cyflwynwyd i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag Adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

Gorchmynnwyd ei argraffu gan Dŷ'r Cyffredin 13 Gorffennaf 2017.

**HC276**

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2017**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon neges e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi bod yr hawlfraint ar unrhyw wybodaeth yn eiddo i drydydd parti, bydd angen cael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, 102 Petty France, Llundain, SW1H 9AJ.

ISBN Argraffu 9781474145916
ISBN y We 9781474145923
ID 30051733 07/17

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 75% o'i gynnwys yn ffeibrau wedi'u hailgylchu.

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Adroddiad perfformiad** | **1** |
| **Trosolwg** | **1** |
| Datganiad y Prif Weithredwr | 1 |
| Am yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol | 5 |
| **Dadansoddiad o berfformiad** | **10** |
| Ffocws ar y flwyddyn | 10 |
| Perfformiad ar sail ein Hamcanion Strategol | 11 |
| Sylwebaeth rheoli ariannol | 18 |
| Adroddiad cynaliadwyedd | 20 |
| Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol | 25 |
| **Adroddiad atebolrwydd** | **26** |
| **Adroddiad llywodraethu corfforaethol** | **27** |
| Adroddiad y Cyfarwyddwyr | 28 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu | 29 |
| Datganiad llywodraethu | 30 |
| **Adroddiad tâl a staff** | **42** |
| **Datgeliadau atebolrwydd seneddol** | **55** |
| **Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin** | **56** |
| **Adroddiadau ariannol** | **58** |
| **Prif ddatganiadau** | **60** |
| **Polisïau cyfrifyddu** | **64** |
| **Nodiadau 2 - 21** | **74** |

# Adroddiad perfformiad




Shaun McNally CBE

# Datganiad y Prif Weithredwr

Rwyf yn falch o gyflwyno pedwerydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA). Wrth edrych yn ôl ar fy mlwyddyn gyntaf ers ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr, hoffwn ddweud pa mor ddiolchgar ydw i i bawb yn yr LAA am eu hymroddiad a'u gwaith caled. Mae newid digidol wedi parhau'n sail i'n gwelliannau gweinyddol ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon. Bellach mae ceisiadau a biliau'n cael eu prosesu drwy systemau ar-lein sifil a throseddol ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein seilwaith TG a'i wella.  Yn fewnol, mae'r LAA wedi arwain y ffordd ar strategaethau gweithio hyblyg i ganiatáu i staff weithio mewn gwahanol leoliadau. Mae hyn wedi ein rhoi mewn sefyllfa gryf wrth i ni ddatblygu ffyrdd symlach a mwy hwylus o weithio. Rydym hefyd yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni i feithrin galluoedd ein gweithlu.

Mae ein dull o gydweithio â rhanddeiliaid ar draws y system gyfiawnder wedi parhau drwy gyfathrebu rheolaidd, ymbresenoli mewn fforymau ymgysylltu a rheoli contractau darparwyr.

Amcan Strategol 1



## Gwella gwaith achosion er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

Mae'r pontio i weithio digidol wedi bod yn newid ac yn llwyddiant mawr. Mae wedi dod yn orfodol ar gyfer gwneud ceisiadau am y canlynol:

- gwaith ardystiedig sifil a theulu drwy'r System Rheoli Cleientiaid a Chostau (CCMS) o 1 Ebrill 2016
- cymorth cyfreithiol troseddol drwy ddefnyddio e-Ffurflenni o 4 Gorffennaf 2016.

Mae'r newid digidol wedi ein gwneud yn fwy effeithlon ac mae'r cynnydd ar weithio ar-lein yn ategu ymrwymiad y llywodraeth i drawsnewid digidol. Cafwyd gwaith hefyd ar newidiadau yn ein cynlluniau ffioedd Llys y Goron. Y bwriad yw diwygio a symleiddio'r rhain er mwyn rhoi mwy o sylw i ffyrdd electronig o weithio.

Cafwyd gweithgarwch comisiynu sylweddol hefyd ar gyfer adnewyddu ac aildendro contractau sifil a throseddol sy'n hanfodol i fusnes.

Mae ein stiwardiaeth ariannol wedi sicrhau ein bod wedi cadw o fewn 1% i'n cyllideb Terfyn Gwariant Ariannol (DEL) ar gyfer gweinyddu a gwariant o gronfeydd. Rydym hefyd o fewn cyfnodau'r targedau ar gyfer prosesu biliau a cheisiadau.

Amcan Strategol 2

## Gwella gallu'r sefydliad i ateb yr heriau sydd o'n blaen, yn cynnwys datblygu ac ymgysylltu â'n pobl

Mae ein staff a'r sefydliad wedi parhau i elwa o weithio hyblyg ac o ailffurfio ein gweithleoedd. Rwyf yn falch iawn bod y sgoriau am ymgysylltu yn parhau i godi a bod yr LAA yn yr ail safle bellach ar draws y Gwasanaeth Sifil am gynhwysiant a thriniaeth deg.

Mae'r gweithlu wedi lleihau o ran maint, ond rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein pobl i sicrhau bod gennym sgiliau priodol i ddiwallu anghenion y sefydliad.

Mae ein hymrwymiad i ymgysylltu wedi parhau'n gryf a bydd ein huwch-reolwyr yn cwrdd â thimau'n rheolaidd ar safleoedd ledled Cymru a Lloegr i drafod materion sydd â blaenoriaeth ac i wrando ar farn staff.

Amcan Strategol 3

## Adeiladu a chynnal partneriaethau cadarn i sicrhau darpariaeth o ansawdd da a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach llywodraeth a'r system gyfiawnder

Mae gweithio mewn partneriaeth a dulliau cydweithredol wedi bod yn allweddol yn ein hymdrechion di-ildio i wella ansawdd ac effeithlonrwydd wrth ddarparu cymorth cyfreithiol ar ran y llywodraeth a'r trethdalwr.

Rydym yn ceisio bod yn agored a thryloyw ynghylch ein gwaith ac rydym yn cyfathrebu ac yn cydweithio â darparwyr a rhanddeiliaid cymorth cyfreithiol. Rydym yn cwrdd yn rheolaidd â chyrff cynrychiadol allanol drwy'r Grwpiau Ymgynghorol ar Gontractau Sifil a Throsedd. Mae rheolwyr contractau a staff rheoli achosion yn gweithio gyda darparwyr ac yn ein helpu i wella ansawdd ein gwaith a'r prosesu ar geisiadau a biliau.

Mae cryfder ein perthnasoedd â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac ar draws llywodraeth yn parhau i wella. Mae'r partneriaid allweddol yn cynnwys yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA) a Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus (OPG) drwy'r Rhaglen Gyflawni ar Gyfiawnder. Mae hyn yn bwysig ar gyfer ymdrechion ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder i sicrhau ffyrdd symlach a mwy hwylus ac effeithlon o weithio: er enghraifft, drwy rannu adnoddau, arbenigedd a gwybodaeth.

Rydym hefyd yn cydweithio â'r heddlu, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM (GLlTEM) a Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) drwy gyflwyno prosesau a rennir o dan Lwyfan Cyffredin y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r rhain yn trawsnewid y ffordd y mae ymarferwyr yn gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae wedi bod yn flwyddyn brysur iawn i'r sefydliad ac rwyf yn gwerthfawrogi gwaith yr holl dîm yn yr LAA. Mae gennym ddiwylliant sy'n gweld gwerth mawr mewn ymroddiad, cydnerthedd a gwaith tîm, ac rydym yn helpu ein gilydd ar bob lefel i gyrraedd ein nodau. Mae pawb wedi dangos egni mawr wrth hyrwyddo rhaglenni gwaith, mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio ac addasu i newid. Rwyf yn credu bod hyn yn ein rhoi mewn lle da wrth wynebu'r flwyddyn nesaf wrth osod targedau newydd a pharatoi i gefnogi strategaeth ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer diwygio a gweithredu mewn meysydd allweddol sydd wedi'u pennu gan y llywodraeth.

Byddwn hefyd yn parhau i feddwl am y darlun ehangach. Ein gwaith yw sicrhau bod yr arian rydym yn ei reoli ar ran y trethdalwr yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl i sicrhau darpariaeth cymorth cyfreithiol o ansawdd da i bawb sy'n gymwys. Mae hyn wrth wraidd ein gwaith ac mae'n hollbwysig ar gyfer llwyddiant yr LAA yn y dyfodol.

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
11 Gorffennaf 2017

# Ein cyflawniadau

Rydym wedi talu
**97%**
o filiau o fewn mis
(targed: mwy na 90%)

**Prosesu / cyflawni**

Roedd mwy na
**90 %**
o'r ceisiadau a biliau a gyflwynwyd i ni wedi'u cwblhau ar-lein

**Prosesu / cyflawni**

Rydym wedi symud o'r 3ydd i'r **2il** safle yn gyffredinol yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ar gyfer tegwch a chynhwysiant

**Ein pobl**

Rydym wedi **ennill** yn y categori sgiliau yng Ngwobrwyon y Gwasanaeth Sifil 2016 am feithrin gallu digidol

**Ein Pobl**

Rydym wedi lleihau ein teithio blynyddol **2.9 miliwn km,** digon i fynd o gwmpas y byd **72 o weithiau**
(o'i gymharu â 2014-15)

**Cyllid ac effeithlonrwydd**

Rydym wedi cael mwy na
**230,000**
o alwadau ffôn yn ein canolfannau galw ac wedi cynnal lefel uchel o berfformiad bodlonrwydd cwsmeriaid

**Enw da**

# Am yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Ein pwrpas: Darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac effeithiol fel rhan o'r system gyfiawnder**

Mae ein gwaith ar weinyddu cymorth cyfreithiol yn hanfodol i sicrhau bod y systemau cyfiawnder sifil, teulu a throseddol yn gweithredu'n deg, yn effeithlon ac yn effeithiol ac rydym wedi cydweithio'n agos â darparwyr cymorth cyfreithiol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ehangach i gyflawni hyn. Mae ein pwrpas wedi bod wrth wraidd ein penderfyniadau o ddydd i ddydd a'n gwaith i wella gwasanaethau cymorth cyfreithiol. Mae ymroddiad ac ymrwymiad ein staff yn hanfodol i gyflawni hyn.

Mae ein pwrpas wedi'i ategu gan ein tri Amcan Strategol (SO):

**SO1**

Gwella gwaith achosion er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

**SO2**

Gwella gallu'r sefydliad i ateb yr heriau sydd o'n blaen, yn cynnwys , datblygu ac ymgysylltu â'n pobl

**SO3**

Adeiladu a chynnal partneriaethau cadarn i sicrhau darpariaeth o ansawdd da a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach llywodraeth a'r system gyfiawnder

Mae rhagor o fanylion am ein Hamcanion Strategol ar dudalen 10.

Mae'r amcanion hyn wedi bod o gymorth mawr i ni yn y pedair blynedd diwethaf ac mae'r LAA wedi gwneud cynnydd da yn y cyfnod hwnnw, felly byddwn yn adolygu ac yn addasu ein Hamcanion Strategol ar gyfer 2017-18. Bydd y rhain yn parhau i bennu'r cyfeiriad ar gyfer ein gwaith ar wella a moderneiddio'r LAA, yn sicrhau bod ein pobl yn meddu ar y sgiliau ac offer priodol i gyflawni eu rolau ac yn cryfhau ein partneriaethau ar draws y system gyfiawnder.

Mae hyn yn rhan o weledigaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd wedi'i hamlinellu yn ei Chynllun Adrannol Sengl yn www.gov.uk/government/publications/moj-single-departmental-plan-2015-to-2020/single-departmental-plan-2015-to-2020

Mae rhagor o wybodaeth am yr Amcanion Strategol newydd a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar dudalen 25.

# Beth rydym yn ei wneud

Prosesu ceisiadau a thalu biliau am gymorth cyfreithiol

Cyflawni swyddogaeth comisiynu a strategaeth sy'n cynllunio, yn datblygu ac yn tendro contractau newydd




Darparu cynrychiolaeth amddiffyn annibynnol mewn achosion trosedd drwy Wasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus

Bod â rheolwyr contractau sy'n cydweithio'n agos â'n darparwyr i reoli perthnasoedd a sicrhau bod ein contractau'n rhedeg yn rhwydd

## Cynhelir hyn oll gan y canlynol

Cyfarwyddiaeth Cyllid a Digidol sy'n gweinyddu taliadau cymorth cyfreithiol, yn sicrhau bod gofynion ariannol wedi'u bodloni ac yn helpu i gyflawni rhaglenni newid allweddol ac i ddigideiddio gwasanaethau ac awtomeiddio prosesau.

Swyddogaeth gorfforaethol sy'n sicrhau cyfathrebu effeithiol, yn helpu ein Bwrdd a'n Tîm Arwain Gweithredol, yn delio â chwynion sydd wedi'u huwchgyfeirio, ac yn ateb ceisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data.

Swyddogaethau a rennir, yn cynnwys adnoddau dynol a gwasanaethau cyfreithiol, sy'n darparu cymorth i'r LAA, i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau llywodraeth eraill.

**Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus**
Sefydlwyd Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (PDS) yn 2001 i ddarparu cynrychiolaeth amddiffyn yn uniongyrchol i'r cyhoedd ym mhob math o achosion troseddol, ochr yn ochr â'r darparwyr cymorth cyfreithiol troseddol sydd o dan gontract. Mae ein swyddfeydd yn Cheltenham, Darlington, Pontypridd ac Abertawe, ac mae eiriolwyr y PDS yn darparu gwasanaethau ledled Cymru a Lloegr.

**Ymgysylltu yng Nghymru**
Mae'r LAA yn cynnal cysylltiadau agos â Llywodraeth Cymru, er mwyn cydnabod y weinyddiaeth ddatganoledig. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n uniongyrchol â grwpiau rhanddeiliaid, er enghraifft, y Byrddau Cyfiawnder Troseddol a Theulu yng Nghymru, Cyngor Ar Bopeth Cymru, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru a Shelter Cymru.

**Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol**
Roedd Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 yn sicrhau bod y broses penderfynu ar gyfer cymorth cyfreithiol yn aros yn annibynnol ar weinidogion. Crëwyd rôl Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol o ganlyniad i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Mae'r Cyfarwyddwr yn llwyr gyfrifol am wneud penderfyniadau ar achosion penodol. Mae Bwrdd yr LAA a'r Tîm Cyfreithiol Canolog yn helpu'r Cyfarwyddwr i sicrhau bod arferion effeithiol ar waith i gadw'r broses penderfynu'n annibynnol. Mae Prif Weithredwr yr LAA, Shaun McNally CBE, wedi ymgymryd â'r rôl hon er 1 Ebrill 2016. Cyhoeddir Adroddiad y Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol bob blwyddyn ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

**Ein pobl**
Mae ein staff yn chwarae rhan hanfodol mewn darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac effeithiol, ac rydym yn ymdrechu i wneud yr LAA yn lle gwell i weithio. Yn 2016-17 roeddem wedi canolbwyntio ar gryfhau ein harweinyddiaeth, datblygu sgiliau a gallu ein pobl a darparu amgylchedd gwaith mwy hyblyg i roi gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a llesiant.

Cafodd y tîm Gallu Digidol ei gydnabod am ei ran mewn trawsnewid yr LAA a derbyniodd y Wobr Sgiliau yng Ngwobrwyon y Gwasanaeth Sifil yn 2016. Roedd y tîm wedi canolbwyntio ar hybu ymwybyddiaeth o dechnoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio, gan ddarparu'r offer priodol a meithrin arbenigedd digidol yn yr LAA.

Mae ein pobl wedi cael budd o nifer o raglenni datblygu gwahanol y tu mewn a'r tu allan i'r LAA. Mae rhagor o wybodaeth am Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ac amrywiaeth a chynhwysiant ar dudalen 15.

**Ein partneriaid**
Fel rhan allweddol o'r system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr, rydym yn gweithio gyda darparwyr gwasanaethau cyfreithiol o sawl math gan ddelio â nifer o fodelau gweithredu gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys unig ymarferwyr, busnesau mawr â sawl swyddfa a sefydliadau di-elw. Mae rhai ohonynt yn darparu cyngor ac yn arbenigo mewn meysydd cyfraith penodol, ac eraill yn gweithio mewn nifer o wahanol gategorïau cyfreithiol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y system gyfiawnder. Ymhlith y rhain mae Cymdeithas y Cyfreithwyr a Chyngor y Bar, y Byrddau Cyfiawnder Teulu a Throseddol, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, GLlTEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae ein perthnasoedd â'n darparwyr yn rhan hanfodol o waith yr LAA. Drwy gyfarfodydd fel y Grwpiau Ymgynghorol ar Gontractau Trosedd a Sifil, rydym yn sicrhau ymgysylltu rheolaidd ar faterion gweithredol allweddol â'r prif gyrff cynrychiadol. Bydd ein rheolwyr contractau a staff rheoli achosion yn cydweithio bob diwrnod â'n darparwyr i sicrhau bod ein contractau'n rhedeg yn rhwydd a bod ceisiadau a biliau'n cael eu prosesu. Yn ogystal â hyn, cyhoeddir datganiadau rheolaidd ar weithrediadau ar dudalennau cymorth cyfreithiol ar www.gov.uk.

# Ein rhaglenni diwygio – Portffolio Newid Adolygiad o Wariant 2015

**Cwblhau ein rhaglenni etifeddol** – roedd cyflwyno Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 yn adlewyrchu ymrwymiad y llywodraeth i sicrhau bod cymorth cyfreithiol ar gael i'r rheini sydd â'i angen fwyaf ac mewn achosion lle'r oedd cyfiawnhad dros ddarparu cyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol. Parhawyd i ganolbwyntio ar sicrhau system cymorth cyfreithiol ymarferol ac effeithlon drwy gydol 2016-17 drwy dair rhaglen ddiwygio allweddol, y cwblhawyd pob un ohonynt yn 2016:

- Rhaglen Gyflawni Integredig – fe'i cyflwynwyd i reoli Cynrychiolaeth Sifil yn electronig. Mae'r CCMS yn rhoi cymorth cyfreithiol, yn talu biliau ac yn adennill dyledion drwy ddulliau electronig. Gwneir yr holl geisiadau sifil ar-lein drwy'r CCMS ers i hynny ddod yn orfodol ar 1 Ebrill 2016.
- Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol – fe'i cyflwynwyd i sicrhau nifer o ddiwygiadau polisi i leihau cost cymorth cyfreithiol, gan sicrhau hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder. Mae arbedion o'r diwygiadau'n cael eu gwireddu eisoes a disgwylir iddynt roi'r holl fuddion arfaethedig erbyn 2019-20.
- Rhaglen Newid Trosedd – ei hamcan oedd mabwysiadu dulliau digidol gan sicrhau mwy o reolaeth dros wariant o gronfeydd drwy alluogi'r holl ddarparwyr trosedd i gyflwyno ceisiadau a biliau ar-lein. Roedd hyn yn golygu creu proses genedlaethol ar-lein ar gyfer cyflwyno ceisiadau a gwneud gwelliannau yn ein systemau TG presennol.

**Sefydlogi ein seilwaith TG** i sicrhau gwasanaeth cyson drwy gyflawni'r prosiectau canlynol:

- pennu a chyflwyno gwelliannau mewn rheolaeth sy'n uwchraddio porth ar-lein presennol yr LAA er mwyn gwella cydnerthedd a pherfformiad
- gwelliannau yn y CCMS ar gyfer defnyddwyr mewnol ac allanol
- creu amgylcheddau datblygu a phrofi hyblyg seiliedig ar gwmwl er mwyn datblygu a chynnal cymhwysiad yr LAA.

**Lleihau gwariant cymorth cyfreithiol a chost gweinyddu cymorth cyfreithiol** drwy'r canlynol:

- Prosiect Mentrau'r Dyfodol – cyfres o welliannau mewn dulliau digidol a systemau TG presennol a fydd yn awtomeiddio prosesau ac yn gwneud gweithrediadau gwaith achos cymorth cyfreithiol yn fwy effeithlon
- Diwygio Cynllun Ffioedd Llys y Goron – cyfres o newidiadau i symleiddio a diwygio cynlluniau ffioedd a gweithredu newidiadau mewn polisi cymorth cyfreithiol.

**Rhannu data yn well ar draws y system gyfiawnder,** cynyddu effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid drwy gyflawni'r prosiectau canlynol:

- Rhaglen Darparu Cyfiawnder – wrth weithio ar draws Grŵp Darparu Cyfiawnder y Weinyddiaeth Gyfiawnder, cafwyd mwy o gydweithredu a chydweithio agosach yn bennaf rhwng yr LAA, CICA a'r OPG. Gweithredwyd hyn drwy nifer o fentrau newid sy'n cynnwys dull storio dogfennau a rennir, treialu'r cysyniad o ganolfan gyswllt a rennir a bod yn llais ar y cyd mewn mentrau newid ehangach, yn cynnwys Gwrandawiadau Rhithwir GLlTEM
- Llwyfan Cyffredin y System Cyfiawnder Troseddol – datblygu rhyng-gysylltiad â phartneriaid yn y System Cyfiawnder Troseddol (yr heddlu, GLlTEM a Gwasanaeth Erlyn y Goron) er mwyn darparu gwasanaeth o'r dechrau i'r diwedd.

**Adnewyddu ac aildendro contractau busnes hanfodol,** yn cynnwys:

- contractau darparwyr sifil a throsedd
- contractau ceisiadau a chymorth ar gyfer e-Ffurflenni cymorth cyfreithiol troseddol, i hyrwyddo amgylcheddau datblygu a phrofi'r CCMS.

# Dadansoddiad o berfformiad

## Ffocws ar y flwyddyn

Rydym wedi gweld nifer o welliannau yn ystod ein pedwaredd flwyddyn fel asiantaeth weithredol sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ein ffordd o weithio fel sefydliad ac ar ein rhyngweithio â darparwyr. Cyflawnwyd hyn gan barhau i berfformio'n dda ar ein hamcanion.

**Ein Pwrpas**

Darparu cymorth cyfreithiol yn effeithlon ac effeithiol fel rhan o'r system gyfiawnder

**Amcan Strategol 1**

Gwella gwaith achosion er mwyn lleihau costau, gwella rheolaeth a rhoi gwell gwasanaeth i gwsmeriaid

- Parhau i ddatblygu ein systemau i'n galluogi i weithio'n fwy digidol
- Cynnal ein prosesau ar gyfer talu biliau a phrosesu ceisiadau
- Parhau â'n cyfraddau gwallau isel ar daliadau a phenderfyniadau ar gymhwysedd

**Amcan Strategol 2**

Gwella gallu'r sefydliad i ateb yr heriau sydd o'n blaen, yn cynnwys datblygu ac ymgysylltu â'n pobl

- Meithrin gallu i gyd-fynd â'r ffyrdd digidol newydd o weithio
- Datblygu ein staff a gwella lefelau ymgysylltu
- Parhau i wneud yr LAA yn lle gwell i weithio

**Amcan Strategol 3**

Adeiladu a chynnal partneriaethau cadarn i sicrhau darpariaeth o ansawdd da a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach llywodraeth a'r system gyfiawnder

- Cyfrannu at gyflawni nodau'r system gyfiawnder ehangach
- Parhau i gydweithio'n gadarnhaol ag adrannau llywodraeth eraill
- Parhau i weithio gyda darparwyr i sicrhau darparu gwasanaeth o ansawdd da

# Perfformiad ar sail ein Hamcanion Strategol

Mae'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r Amcanion Strategol wedi cael eu monitro drwy fframwaith rheoli perfformiad yr LAA sy'n cynnwys pedwar Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n mesur elfennau pwysig yn ein gwaith o ddydd i ddydd.

Yn ogystal â hyn, mae'r fframwaith rheoli perfformiad yn mesur cerrig milltir allweddol mewn perthynas â chyflawni ymrwymiadau yng nghynllun busnes yr LAA. Adroddwyd ar y canlyniadau drwy gydol y flwyddyn i'r Tîm Arwain Gweithredol, Bwrdd yr LAA a Phwyllgor Gweithredol y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

SO1

DPA: Rheoli Ariannol
DPA: Cyflawni Gweithredol

Ymrwymiadau

- Cynnal rheoleidd-dra cronfeydd cyhoeddus drwy sicrhau cyfraddau gwallau isel ar daliadau i ddarparwyr ac asesiadau o gymhwystra
- Talu mwyafrif y biliau o fewn mis a chymeradwyo cyllid ar gyfer achosion o fewn dwy wythnos heblaw'r achosion mwyaf cymhleth
- Darparu PDS o ansawdd da
- Parhau â'n gwaith i ddigideiddio ein gwasanaethau ac awtomeiddio ein prosesau
- Cynyddu ein casglu ar ddyledion
- Sicrhau penderfynu annibynnol ac amddiffynadwy

SO2

DPA: Pobl

Ymrwymiadau

- Cefnogi gweledigaeth y Weinyddiaeth Cyfiawnder o fod yn adran sy'n graffach, yn symlach ac yn fwy effeithlon
- Cryfhau ein harweinyddiaeth, datblygu ein pobl a gwella ein gweithle
- Parhau i wella llesiant, dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng bywyd a gwaith a darparu amgylchedd gweithio hyblyg
- Hybu ymwybyddiaeth o wahaniaethu ac anghydraddoldeb a mynd i'r afael â nhw

SO3

DPA: Gohebu a Gwasanaethu Cwsmeriaid

Ymrwymiadau

- Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i sicrhau bod contractau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod ceisiadau a biliau'n gywir y tro cyntaf
- Cydweithio â chymheiriaid ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder ac adrannau llywodraeth eraill i weithredu polisi newydd yn effeithlon
- Darparu canolfannau cyswllt effeithlon o ansawdd da i'r cyhoedd, cleientiaid a darparwyr
- Sicrhau bod contractau newydd yn cael eu dyfarnu'n effeithiol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol
- Cydweithio'n agos â CICA a'r OPG i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn swyddogaethau canol a chefn swyddfa

SO 1

## Improve casework to reduce cost, enhance control and give better customer service

### DPA: Rheoli Ariannol

- Costau gweinyddu'r asiantaeth – sicrhau'r effeithlonrwydd ac arbedion costau sydd eu hangen i reoli gweithrediadau o fewn y gyllideb a ddyrannwyd ar gyfer gweinyddu
- Gwariant o gronfeydd cymorth cyfreithiol – monitro gwariant cymorth cyfreithiol, yn cynnwys sicrhau arbedion ariannol
- Cyfradd gwallau net – monitro pa mor dda rydym yn gweithio gyda darparwyr a'n cywirdeb wrth gymeradwyo ceisiadau am gymorth cyfreithiol a phrosesu biliau

Roeddem wedi cynnal stiwardiaeth ariannol gadarn yn 2016-17, wedi lleihau costau rhedeg gweinyddol ac wedi aros o fewn 1% i'n cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol.

Yr amcangyfrif o'r gyfradd gwallau net ar gyfer 2016-17 yw 0.8 % o'i gymharu â 0.8 % yn 2015-16

Mae rhagor o wybodaeth am wariant yr LAA yn y Sylwebaeth Rheoli Ariannol a'r Datganiadau Ariannol.

### DPA: Cyflawni Gweithredol

- Rheoli Achosion – mesur pa mor gyflym rydym yn prosesu ceisiadau sifil a, throsedd, ac yn talu biliau darparwyr
- Rheoli Contractau – monitro'r rheolaeth ar berfformiad darparwyr ar gontractau
- Gwasanaethau Digidol – sicrhau cynnydd at ddod yn sefydliad cwbl ddigidol

Roeddem wedi gwella ein perfformiad misol ar brosesu ceisiadau a thalu biliau, ac wedi aros o fewn ein targed ar gyfer prosesu ceisiadau sifil a throsedd

98 % o geisiadau sifil wedi'u prosesu o fewn 20 niwrnod gwaith (targed 85%)

95 % o geisiadau trosedd wedi'u prosesu o fewn 2 ddiwrnod gwaith (targed: 90%)

Talwyd 97 % o filiau o fewn mis (targed: mwy na 90%)

Dim ond 8 % o geisiadau sifil a wrthodwyd is na'r targed o 15%)

Cafwyd mwy o gynnydd at ddod yn sefydliad cwbl ddigidol.

MWY NA 90 % o'r ceisiadau a biliau a gyflwynwyd i ni wedi'u cwblhau ar-lein.

## 1 Mae Amcan Strategol 1 wedi'i gysylltu â'r ymrwymiadau canlynol

**Allwedd ar gyfer adrodd ar ymrwymiadau**

✓ Wedi'i gyflawni    ✗ Heb ei gyflawni

| | |
|---|---|
| ✓ | Cynnal rheoleidd-dra cronfeydd cyhoeddus drwy sicrhau cyfraddau gwallau isel ar daliadau i ddarparwyr ac asesiadau o gymhwystra |
| ✓ | Talu mwyafrif y biliau o fewn mis a chymeradwyo cyllid ar gyfer achosion o fewn dwy wythnos heblaw'r achosion mwyaf cymhleth |
| ✓ | Darparu Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus o ansawdd da |
| ✓ | Parhau â'n gwaith i ddigideiddio ein gwasanaethau ac awtomeiddio ein prosesau |
| ✗ | Cynyddu ein casglu ar ddyledion |
| ✓ | Sicrhau penderfynu annibynnol ac amddiffynadwy |

Rydym wedi parhau i wella rheolaethau a rhoi gwell gwasanaethau i gwsmeriaid drwy wneud cynnydd sylweddol ar ddigideiddio ein gwasanaethau. Yn Ebrill 2016, gwnaed defnyddio'r CCMS yn orfodol ac mae'r holl geisiadau sifil yn mynd drwy'r system hon yn awr. Y flwyddyn hon, cyflwynwyd Crime Billing Online a gwasanaeth digidol newydd ar gyfer bilio am waith Llys y Goron, a chyflwynwyd Gorchmynion Cynrychiolaeth yn llwyddiannus ar gyfer achosion troseddol: bellach mae'r rhain yn cael eu hanfon yn electronig a'u hargraffu'n ganolog i gleientiaid. Bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth i ddarparwyr, cleientiaid a gweithwyr achos dros amser.

Mae'r PDS wedi parhau i ddarparu cynrychiolaeth amddiffyn o ansawdd da o'n swyddfeydd yn Cheltenham, Darlington, Pontypridd ac Abertawe, a thrwy ein Hunedau Eiriolaeth ledled Cymru a Lloegr.

Adenillwyd llai o ddyledion nag yn y flwyddyn ddiwethaf, sef £61.0 miliwn (2015-16: £65.3 miliwn), yn bennaf o ganlyniad i dderbyn llai o ddyledion o ffioedd statudol sifil. Mae'r strategaeth casglu arian parod yn cael ei diwygio ar gyfer 2017-18 er mwyn adennill y symiau mwyaf posibl a rhoi mwy o bwyslais ar gasglu dyledion hŷn.

SO 2


## Gwella gallu'r sefydliad i ateb yr heriau sydd o'n blaen, yn cynnwys datblygu ac ymgysylltu â'n pobl

### DPA: Pobl

- Absenoldeb oherwydd Salwch – monitro a lleihau nifer y diwrnodau a gollir drwy salwch



5.6 o ddiwrnodau gwaith wedi'u colli ar gyfartaledd oherwydd salwch staff ar draws yr LAA (o'i gymharu â 6.9 yn 2015-16)





Yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil o **7.3 diwrnod**

## 2 Mae Amcan Strategol 2 wedi'i gysylltu â'r ymrwymiadau canlynol


- Cefnogi gweledigaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder o fod yn adran sy'n graffach, yn symlach ac yn fwy effeithlon
- Cryfhau ein harweinyddiaeth, datblygu ein pobl a gwella ein gweithle
- Parhau i wella llesiant, dod o hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng bywyd a gwaith a darparu amgylchedd gweithio hyblyg
- Hybu ymwybyddiaeth o wahaniaethu ac anghydraddoldeb a mynd i'r afael â nhw

## Mae'r LAA yn falch o'r canlyniadau yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2016-17:

Codi yn y mynegai ymgysylltu cyffredinol o 66% i 68%




Roedd yr LAA wedi symud o'r 14eg safle i'r 11eg ar draws y Gwasanaeth Sifil



Lefel uchel o gyfranogi, gan fod 83% o'r staff wedi rhoi eu barn



Mae'r LAA yn y 10 uchaf (o 98 o sefydliadau Gwasanaeth Sifil a gymerodd ran) mewn chwech o'r naw




Sgoriau gwell ym mhob un o'r naw categori yn yr arolwg




Mae'r LAA yn mawrbrisio cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth ddarparu cymorth cyfreithiol ac yn ein gweithle. Rydym wedi ymrwymo i gyfrannu at gyflawni nodau cynhwysiant y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Sifil ac i ymgorffori dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol.

Roeddem wedi symud o'r 3ydd safle i'r 2il yn gyffredinol yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn y categori tegwch a chynhwysiant. Mentrau newydd a oedd wedi helpu i gyflawni hyn oedd cyflwyno amcanion amrywiaeth ar gyfer yr holl staff; sefydlu Prosiect Cydraddoldeb Rhywedd a Fforwm Gweithlu Cydraddoldeb Oed; cydweithio â Phrosiect Hil y Weinyddiaeth Gyfiawnder; hyrwyddo cyfleoedd am weithredu cadarnhaol ar gyfer staff mewn grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (yn cynnwys menywod, staff ag anabledd,  staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, du a lleiafrifol ethnig); hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd; a hyrwyddo ymgyrch 'Challenge It, Change It' y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn erbyn bwlio ac aflonyddu.

Mae ein timau o uwch-reolwyr wedi ymrwymo i sicrhau llesiant ein staff . Rydym wedi sefydlu grŵp o hyrwyddwyr llesiant yn ein holl swyddfeydd yng Nghymru a Lloegr, sy'n trefnu ac yn rhedeg digwyddiadau lleol i hybu ymwybyddiaeth o faterion fel bwyta'n iach, ymarfer ac iechyd meddwl. Yn ogystal â hyn, ar lefel gorfforaethol, mae'r LAA yn gweithredu system iechyd a diogelwch effeithiol sy'n hyrwyddo llesiant staff, yn cynnwys hybu ymwybyddiaeth ar lefel genedlaethol o glefydau cyhyr-ysgerbydol drwy Asesiadau Sgrin Arddangos blynyddol sydd â'r bwriad o gynnwys addasiadau rhesymol lle bo'n briodol. Mae'r LAA wedi asesu ei hymagwedd at lesiant ar sail y Safon Iechyd Corfforaethol Efydd ac wedi'i hachredu fel sefydliad sy'n cydymffurfio yn yr holl feysydd a fesurwyd.

Er mwyn cryfhau arweinyddiaeth yr LAA, crëwyd y Rhaglen Potensial Arweinyddiaeth i roi cyfle i ddatblygu i 25 o ymgeiswyr llwyddiannus drwy gynnig cymorth, hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau a pharatoi ar gyfer y posibilrwydd o gael dyrchafiad. Cafodd y rhaglen ei datblygu a'i rhedeg gan aelodau o gynlluniau arweinyddiaeth blaenorol yr LAA.

Yn y flwyddyn hon, roedd nifer y staff sydd â Chymhwyster Proffesiwn Cyflawni Gweithredol wedi codi 54 i 113. Mae'r rhaglen yn tyfu o hyd, ac mae tri chohort yn ymuno bob blwyddyn i ddechrau neu barhau â'u hastudiaethau. Mae'r Rhaglen Sgiliau Sylfaen wedi cael ei lansio hefyd y flwyddyn hon. Ar hyn o bryd, mae 78 o gydweithwyr yn dilyn y rhaglen hon, gan ddysgu drwy weseminarau, e-Ddysgu a chyflwyno portffolios. Mae 57 o aelodau staff yn dilyn y Llwybr Datblygu ar gyfer y Dyfodol ac wedi ymrwymo i feithrin eu gallu ac i hyfforddi mewn pedwar sgil craidd: Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Cyflawni Prosiectau, Polisi Gweithredol a Rheoli Contractau.

SO 3

## Adeiladu a chynnal partneriaethau cadarn i sicrhau darpariaeth o ansawdd da a chyfrannu'n llawn at gyflawni nodau ehangach llywodraeth a'r system gyfiawnder

### DPA: Gohebu a Gwasanaethu Cwsmeriaid

- Monitro ymateb ein gwasanaethau cwsmeriaid i ymholiadau, gohebiaeth a chwynion, yn cynnwys ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a Deddf Diogelu Data
- Monitro'r gwasanaeth a ddarparwn drwy'r Llinell Gymorth Ardystiedig Sifil, gan fesur pa mor gyflym rydym yn ateb galwadau ac yn bodloni cwsmeriaid

Yn 2016-17

96%
(2015-16: 93%)
o geisiadau FOI wedi'u hateb mewn 20 niwrnod (targed 90%)

98%
(2015-16: 91%)
o geisiadau DPA wedi'u hateb mewn 40 niwrnod (targed: 90%)

Rydym wedi cynnal y lefel ar gyfer trafod cwynion a gohebiaeth ag Aelodau Seneddol

MWY NA 99% wedi'i drafod o fewn 20 niwrnod

(targed 90%)

Unwaith eto, mae'r Ganolfan Gyswllt Ardystiedig Sifil wedi cyrraedd lefel uchel ofberfformiad.

Atebwyd galwadau o fewn 2:39 munud ar gyfartaledd

(2015-16: 2:48 munud)
(targed 2:10 - 2:50 munud)

Nifer y galwadau a adawyd 5.6%

(2015-16: 6.8%)
(targed: llai na 12%)

## 3 Mae Amcan Strategol 3 wedi'i gysylltu â'r ymrwymiadau canlynol

- Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr i sicrhau bod contractau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod ceisiadau a biliau'n gywir y tro cyntaf
- Cydweithio â chymheiriaid ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac adrannau llywodraeth eraill i weithredu polisi newydd yn effeithlon
- Darparu canolfannau cyswllt effeithlon o ansawdd da i'r cyhoedd, cleientiaid a darparwyr
- Sicrhau bod contractau newydd yn cael eu dyfarnu'n effeithiol ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil a throseddol
- Cydweithio'n agos â CICA a'r OPG i sicrhau arbedion effeithlonrwydd mewn swyddogaethau canol a chefn swyddfa

Roedd tîm Rheoli Contractau'r LAA wedi dilyn rhaglen archwilio a oedd yn sicrhau bod pob darparwr yn cael ymweliad ac archwiliad o leiaf unwaith yn 2016-17 i wirio bod ei weithgareddau'n cydymffurfio â thelerau'r contract cymorth cyfreithiol. Roedd y tîm Rheoli Contractau wedi cydweithio'n agos â darparwyr i leihau amlder y gwallau a nodwyd. Gwelwyd pa mor effeithiol oedd y dull hwn o weithredu yn y gostyngiad yng nghanran i biliau sifil a wrthodwyd oherwydd gwall ar ran y darparwr.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar symleiddio'r dull o weinyddu cymorth cyfreithiol drwy gydweithio â darparwyr, rhannau eraill o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r sector cyfiawnder ehangach. Er ein bod wedi gwneud cynnydd da yn y blynyddoedd diwethaf drwy gyflwyno offer digidol a gwella prosesau, rydym yn parhau i ddatblygu a chynllunio gwelliannau pellach. Mae rhagor o wybodaeth am ein rhaglenni diwygio ar dudalen 8.

# Sylwebaeth rheoli ariannol

Mae'r adran hon yn darparu sylwebaeth i ategu'r Datganiadau Ariannol a'n perfformiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r Datganiadau Ariannol ar dudalennau 58 i 91. Mae nodyn 2 ar y Datganiadau Ariannol ar dudalen 74 yn nodi'r costau gweithredu net ar gyfer pob un o'r segmentau isod ac mae nodiadau 3-6 yn dangos gwariant ac incwm yn fanwl. Isod dangosir y symudiadau mwyaf mewn gwariant cymorth cyfreithiol yn ôl cynllun, gan gymharu 2016-17 â 2015-16.

**Gwariant Net yr LAA**
**£1.7bn**
(cynnydd o £47.8 miliwn)

**Trosedd Uwch**
**£633.7m (cynnydd o £51.3 miliwn)**

Cynnydd yn yr amcangyfrif o'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith a gyflawnwyd sydd heb ei filio ar achosion Trosedd Uwch sy'n parhau am fod :
- hyd cyfartalog tybiedig achosion yn hirach nag yr oedd y flwyddyn ddiwethaf
- costau cyfartalog achosion yn uwch o ganlyniad i gynnwys datgeliadau electronig ar gyfer ffioedd ar sail tudalennau o dystiolaeth yr erlyniad

**Cynrychiolaeth Sifil**
**£538.5m (cynnydd o £19.9 miliwn)**

Cynnydd mewn achosion Deddf Plant Arbennig

**Help Cyfreithiol**
**£92.7m (gostyngiad o £2.5 miliwn)**

Gostyngiad yn nifer y materion help cyfreithiol ym mhob maes heblaw lloches

**Cronfeydd Canolog**
**£48.0m (gostyngiad o £0.1 miliwn)**

Gostyngiad bach yng Ngorchmynion Costau Amddiffyn y Goron am achosion erlyn preifat

**Trosedd Is**
**£278.8m (gostyngiad o £3.4 miliwn)**

Gostyngiad graddol mewn gwariant yn unol â gostyngiad cyffredinol mewn cyfraddau troseddu

**Costau rhedeg gweinyddol**
**£95.0m (gostyngiad o £17.5 miliwn)**

O ganlyniad i'r canlynol:
- costau untro a ysgwyddwyd y flwyddyn ddiwethaf am:
  - daliadau diswyddo o dan Gynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol (VEDS)
  - setlo costau cyfreithiol cynigwyr a oedd wedi herio'r tendr cystadleuol am gymorth cyfreithiol troseddol cyn ei wrthdroi
- llai o gostau staff am fod y gweithlu'n llai ar ôl gweithredu rhaglen VEDS a defnyddio llai o staff asiantaeth dros dro a chontractwyr
- arbedion drwy ddigideiddio, yn cynnwys llai o gostau argraffu, postio, papur, teithio, cynhaliaeth a phrosesu

## Eitemau arwyddocaol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yr LAA

**Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill**
Mae'r ddarpariaeth hon ar gyfer gwaith a gwblhawyd gan gyfreithwyr, bargyfreithwyr ac asiantaethau cynghori ond sydd heb ei filio eto. Gwneir amcangyfrif o'r gwaith hwn sydd ar ei ganol drwy gymryd nifer yr achosion yr adroddwyd eu bod wedi dechrau ac amcangyfrif y gweithgarwch a gafwyd ar y rhain ar sail proffiliau hanesyddol o gost a hyd achosion. Mae mwyafrif y rhwymedigaethau sy'n weddill gan yr LAA yn rhai am filiau a gafwyd ond sydd heb eu prosesu eto, sy'n cael eu trin fel symiau masnach taladwy, ac unrhyw waith a adroddwyd na thalwyd amdano ar hawliadau talu ar gyfrif, sy'n cael eu trin fel croniadau.

**Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill**
Mae hyn yn cynnwys arian sy'n ddyledus oddi wrth gleientiaid sydd wedi cael cymorth cyfreithiol, y rhan fwyaf ohono'n ddyledus o dan ffi statudol. Bydd ffioedd statudol yn codi pan fydd cleientiaid a gafodd gymorth cyfreithiol yn llwyddo i ennill neu gadw ased o ganlyniad i'r cynhorthwy cyfreithiol a gawsant. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid i'r cleient ad-dalu cost ei gymorth cyfreithiol. Os nad oes digon o asedau gwario gan y cleient i ad-dalu'r cymorth cyfreithiol, bydd yr LAA yn cael sicrwydd dros y ddyled drwy gofrestru arwystl ffurfiol ar yr ased perthnasol. Mae gan yr Arglwydd Ganghellor hawl i ohirio gorfodi'r arwystl hwn a chronni llog ar y ddyled hon ar gyfradd llog syml o 8% nes bydd yr hawlydd yn gallu ad-dalu'r ddyled. Bydd y ddyled yn cael ei hadennill pan werthir yr ased neu cyn hynny os bydd gan y cleient fodd i ad-dalu'n gynharach. Anogir cleientiaid i ad-dalu'r ddyled cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau taliadau llog.

Mae balans y symiau derbyniadwy hefyd yn cynnwys arian sy'n ddyledus oddi wrth wahanol ddarparwyr cymorth cyfreithiol sydd wedi codi o ganlyniad i adennill taliadau ar gyfrif ar achosion sydd wedi'u setlo ac adennill gordaliadau.



# Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r LAA, drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn bartner yn y Clwstwr Ystadau ar y Cyd ar gynaliadwyedd. Rydym wedi ymrwymo i greu ystad gynaliadwy, effeithiol ac effeithlon sy'n rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd ac yn rhoi'r gallu i drawsnewid y ffordd y mae gweision sifil yn gweithio ac yn cyfrannu i'r agenda ar dwf.

Er mwyn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, rydym wedi ymdrechu i gyflawni Ymrwymiadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac ymrwymiadau'r llywodraeth ar ddarparu gweithrediadau a chaffael cynaliadwy.

## Mae ein strategaeth ar gyfer cynaliadwyedd yn canolbwyntio ar y canlynol:

**Ymwybyddiaeth amgylcheddol** – Ceir arferion da o ran lleihau gwastraff ac ailgylchu yn ein gweithrediadau o ddydd i ddydd. Rydym hefyd yn hyrwyddo ymddygiad caffael cyfrifol ac arferion rheoli gwastraff. Yn benodol, mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn darparu manylion Safonau Prynu'r Llywodraeth ar gyfer nifer o wahanol gynhyrchion. Rydym yn mynnu bod gofynion Safonau Prynu'r Llywodraeth yn cael eu bodloni ac yn eu cynnwys ym mhob gweithgarwch tendro lle maent yn gymwysadwy.

**Ymwybyddiaeth o'r newid yn yr hinsawdd** – Mae Tîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i reoli ac adolygu adeiladau a safleoedd risg uchel, gan dynnu sylw at adeiladau ar safleoedd sy'n agored i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, fel tymheredd, llifogydd ac amodau hinsawdd niweidiol eraill. Mae hyn yn ein galluogi i werthuso'r defnydd o ynni er mwyn cael gwell gwybodaeth ar gyfer ein strategaeth weithredol, ac i weithredu mewn ffordd fwy cynaliadwy.

Rydym wedi parhau i drawsnewid cymorth cyfreithiol ac wedi symud mwy o'n gwaith ar-lein. Mae'r manteision o weithio yn oes technolegau digidol a chwmwl yn hwyluso'r broses o newid o fod yn sefydliad sy'n gweithredu ar bapur i fod yn un di-bapur. Ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil, gwnaed defnydd o'r CCMS yn orfodol o 1 Ebrill 2016 ar gyfer cyflwyno ceisiadau a biliau cymorth cyfreithiol sifil ar-lein. Ar gyfer ceisiadau am gymorth cyfreithiol troseddol, cyflwynwyd e-Ffurflenni i alluogi darparwyr i gyflwyno ceisiadau ar-lein o 4 Gorffennaf 2016. Bellach mae mwy na 90% o geisiadau a biliau'n cael eu cwblhau ar-lein, ac rydym yn parhau â'n gwaith ar drawsnewid digidol.

Cawsom fudd am flwyddyn gyfan o'r fenter Trawsnewid Gweithleoedd, a oedd yn darparu'r offer a'r dechnoleg sydd eu hangen ar gyfer gweithio mwy hyblyg. Yn ogystal â hyn, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar leihau teithio sy'n hanfodol i fusnes. Mae'r ddwy fenter hyn, ynghyd â'r ffaith bod ein gweithlu'n llai ar ôl yr ymadawiadau o dan VEDS, wedi lleihau'r teithiau busnes mewnol rhwng ein swyddfeydd ac yn allanol â darparwyr gwasanaethau o 2,871,000km (55%) o'i gymharu â 2014-15.

Mae ein hamgylchedd gwaith hyblyg yn helpu i roi gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'n pobl ac yn hyrwyddo amrywiaeth, yn ogystal â lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae wedi ein galluogi i feddiannu llai o ofod swyddfa, gan gyfrannu at ostyngiad yn ein hallyriadau. Ceir gostyngiad hefyd mewn teithiau cymudo pan fydd staff yn gweithio gartref, ac nid yw hyn wedi'i gofnodi na'i fesur yn yr adroddiad hwn.

Sefydlwyd Hyrwyddwyr Gwyrdd i helpu i hybu ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd a gwella ymddygiad ac arferion gweithio yn ein swyddfeydd. Mae hyn yn cynnwys mentrau Bydd Wyrdd i leihau argraffu ar bapur, rheoli gwastraff a lleihau'r defnydd o drydan a nwy.

## Adrodd ar fesurau cynaliadwyedd amgylcheddol

### Ers 2015-16

**Nwy**
42% o
ostyngiad mewn tCO2e

**Trydan**
21% o
ostyngiad mewn MWh

**Defnydd o bapur**
39%
ostyngiad yn y defnydd o bapur

**Gwastraff**
24% o
ostyngiad mewn tunelli

### Allyriadau o Nwyon Tŷ Gwydr (NTG)

| Energy | | 2016-17 | 2015-16[1] | 2014-15[1] |
|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion anariannol (Tunelli o nwyon yn cyfateb i CO2 (tCO2e)) | Nwy - Cwmpas 1 ynni nad yw'n adnewyddadwy[2] | 103 | 177 | 157 |
| | Trydan - Cwmpas 2 ynni nad yw'n adnewyddadwy[2] | 609 | 773 | 707 |
| | Trydan - Cwmpas 2 ynni adnewyddadwy[2] | 182 | 231 | 211 |
| | Allyriadau o deithiau busnes swyddogol – Cwmpas 3 | 132 | 213 | 270 |
| | Cyfanswm | 1,026 | 1,394 | 1,345 |
| Dangosyddion anariannol (Megawat awr MWh) | Nwy - Cwmpas 1 ynni nad yw'n adnewyddadwy[2] | 560 | 959 | 853 |
| | Trydan - Cwmpas 2 ynni nad yw'n adnewyddadwy[2] | 1,356 | 1,720 | 1,574 |
| | Trydan - Cwmpas 2 ynni adnewyddadwy[2] | 405 | 514 | 470 |
| | Cyfanswm | 2,321 | 3,193 | 2,897 |
| Dangosyddion ariannol (£000) | Gwariant gros ar ynni[2] | 267 | 350 | 319 |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | 502 | 896 | 1,459 |
| | Cyfanswm | 769 | 1,246 | 1,778 |

1 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharu wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol.
2 Adroddwyd ar wybodaeth a oedd ar gael am: Caergrawnt, Bryste, Nottingham, Leeds, Newcastle, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Manceinion, Brighton, Caer a Chaerdydd.


Yn gyffredinol, mae'r defnydd o ynni a'r allyriadau o NTG o drydan a nwy a brynwyd ar gyfer gwresogi wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r ffaith bod ein safleoedd rhanbarthol wedi lleihau eu cyfrif pennau'n sylweddol drwy'r Cynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, mae ein swyddfeydd yng Nghaergrawnt a Bryste wedi gwneud trefniadau newydd ar gyfer eu swyddfeydd yn ystod y flwyddyn a bydd costau a'r defnydd o gyfleustodau'n cael eu cofnodi o hyn ymlaen ar sail meddiannaeth ar y cyd.

Mae'r cynnydd rhwng 2014-15 a 2015-16 ym mhob rhan o'r adroddiad hwn yn ganlyniad i'r effaith blwyddyn lawn o drosglwyddo Tîm Ceisiadau Troseddol a Thîm Trethu Cenedlaethol GLlTEM i'r LAA. Hefyd cafwyd cynnydd o 10% mewn prisiau nwy rhwng 2014-15 a 2015-16.

## Teithio

| Teithio | | 2016-17 | 2015-16[1] | 2014-15[1] |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth allbwn (km 000) | Cerbydau modur | 366 | 513 | 561 |
| | Rheilffyrdd | 1,912 | 3,193 | 4,415 |
| | Hedfan | 64 | 153 | 237 |
| | Cyfanswm | 2,342 | 3,859 | 5,213 |
| Gwybodaeth allbwn (tCO2e) | Cerbydau modur | 68 | 96 | 105 |
| | Rheilffyrdd | 54 | 92 | 127 |
| | Hedfan | 10 | 25 | 38 |
| | Cyfanswm | 132 | 213 | 270 |

1 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharu wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol.




66% (£1.0m)
o ostyngiad mewn gwariant teithio

2.9 million (55%)
yn llai o kilometrau wedi'u teithio (o'i gymharu â 2014-15)

Ar ôl gweithredu'r fenter Trawsnewid Gweithleoedd yn 2015-16, rydym wedi gwneud gwell defnydd o systemau telegynadledda fideo a negeseua gwib gan leihau'r angen i deithio. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar hyn er mwyn lleihau gwariant ar deithio ac allyriadau i'r graddau mwyaf posibl.


## Defnydd o adnoddau cyfyngedig

| Dŵr[2] | | 2016-17 | 2015-16[1] | 2014-15[1] |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth anariannol (metrau ciwbig) | Defnydd o ddŵr | 10,494 | 13,102 | 9,634 |
| Gwybodaeth ariannol (£000) | Costau cyflenwi dŵr | 16 | 20 | 14 |

1 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharu wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol.
2 Adroddwyd ar y wybodaeth sydd ar gael am: Nottingham, Newcastle, Darlington, Pontypridd a Cheltenham.

Mae ein defnydd o ddŵr a chostau dŵr yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn gyson â'n defnydd o ynni, a gellir ei briodol i'r ffaith bod ein gweithlu'n llai yn dilyn yr ymadawiadau o dan VEDS a'r cynnydd mewn gweithio hyblyg.

## Papur[1]




1 Adroddwyd ar y wybodaeth sydd ar gael am: Nottingham, South Tyneside, Darlington, Abertawe a Cheltenham.

Mae ein defnydd o bapur a'r gost amdano wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd. Dyma'r effaith gadarnhaol o droi'n sefydliad mwy digidol a di-bapur. Rydym yn caffael papur sydd wedi'i wneud yn llwyr o wastraff a adenillwyd ar gyfer argraffu yn ein swyddfeydd ac mae ein cyhoeddiadau allanol yn cael eu hargraffu ar bapur y mae o leiaf 75% o'i gynnwys yn ddeunydd a ailgylchwyd.

## Lleihau a rheoli gwastraff

| Gwastraff[2] | | 2016-17 | 2015-16[1] | 2014-15[1] |
|---|---|---|---|---|
| Gwybodaeth anariannol (tunelli) | Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 220 | 255 | 221 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 58 | 110 | 98 |
| | Cyfanswm | 278 | 365 | 319 |
| Gwybodaeth ariannol (£000) | Gwastraff wedi'i anfon i safle tirlenwi | 32 | 37 | 32 |
| | Gwastraff wedi'i ailgylchu/ailddefnyddio | 5 | 9 | 8 |
| | Cyfanswm | 37 | 46 | 40 |

1 Mae canlyniadau'r blynyddoedd cymharu wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r lluosydd trosi allbwn cyfredol.
2 Adroddwyd ar y wybodaeth sydd ar gael am: Caergrawnt, Nottingham, Leeds, Newcastle, Darlington, Pontypridd, Abertawe, Birmingham, Cheltenham, Brighton a Llundain.

Mae'r gostyngiad ym maint y gwastraff a anfonwyd i safle tirlenwi yn ymwneud â'n hymdrech barhaus i leihau a rheoli gwastraff. Rydym yn parhau i ddarparu biniau ailgylchu hawdd eu cyrraedd yn ein holl swyddfeydd er mwyn lleihau maint y gwastraff a anfonir i safle tirlenwi ac ailddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn y ffordd orau. Mae hyn yn adlewyrchu hefyd y cysylltiad cadarnhaol rhwng troi'n ddigidol a'r gostyngiad sylweddol mewn gwastraff papur.

# Tua'r dyfodol

Hon yw'r bedwaredd flwyddyn i ni lunio'r adroddiad Cynaliadwyedd hwn. Rydym yn gwella systemau a rheolaethau drwy'r amser er mwyn cofnodi ein mesurau cynaliadwyedd amgylcheddol yn gyflawn ac yn gywir. Gan fod y cofnodi wedi gwella, y nod nesaf yw pennu ein llinellau sylfaen, meincnodau a thargedau ein hunain.

Bydd ein strategaeth cynaliadwyedd yn parhau i gydweithredu'n agos â gwaith tîm Datblygu Cynaliadwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar Ymrwymiadau Gwyrddu Arfaethedig y Llywodraeth ar gyfer 2016-2020. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i weithio ar leihau allyriadau NTG, rheoli gwastraff yn well, lleihau ein defnydd o ddŵr ymhellach, a phrynu nwyddau a gwasanaethau mwy cynaliadwy ac effeithlon er mwyn lleihau'r effaith hirdymor ar yr amgylchedd.

Mae ein tîm Datblygu Cynaliadwy a Rheolwyr Cyfleusterau yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd i leihau ein hôl troed carbon drwy uwchraddio cyfleusterau. Rhai o'r gwelliannau arfaethedig yw newid i oleuadau LED, uwchraddio sychwyr dwylo, gosod systemau gwresogi canolog, ac adnewyddu boeleri a gwifrau'r prif gyflenwad i arbed ynni a lleihau gwastraff.

Byddwn yn parhau i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd drwy'r gwaith cyfredol ar drawsnewid digidol, ein hymrwymiad i drefniadau gweithio hyblyg, caffael cynaliadwy a'r defnydd o opsiynau cyfathrebu amgen i leihau teithiau busnes i'r eithaf.



# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

## Amcanion Strategol 2017-18

**Drwy gydweithio ag eraill i sicrhau rhagoriaeth wrth ddarparu cymorth cyfreithiol, byddwn:**

Yn darparu mynediad syml, amserol a dibynadwy at gymorth cyfreithiol

Yn meithrin perthnasoedd cryf ar draws llywodraeth a'r system gyfiawnder

Yn sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr ym mhopeth rydym yn ei wneud

Yn gwireddu ein potensial drwy fod yn deg, yn falch ac yn gefnogol

Byddwn yn parhau i ddarparu ein gwasanaethau busnes hanfodol

Fel asiantaeth, byddwn yn parhau i wella effeithlonrwydd, awtomeiddio a symleiddio

Mae ein perthnasoedd â darparwyr cymorth cyfreithiol yn rhan ganolog o waith yr LAA

Fel rhan o grŵp y Weinyddiaeth Gyfiawnder, bydd yr LAA yn chwarae ei rhan yn strategaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth cyfreithiol yn effeithiol ac effeithlon i'r rheini y mae eu bywyd a'u rhyddid yn y fantol, lle maent yn wynebu colli eu cartref, mewn achosion trais domestig, a lle gall eu plant gael eu cymryd i ofal.

### Amcanion strategol y Weinyddiaeth Gyfiawnder

1 **Gwasanaeth carchardai a phrawf sy'n diwygio troseddwyr**

2 **System llysoedd a chyfiawnder fodern**

3 **Prydain Fyd-eang sy'n hyrwyddo rheolaeth y gyfraith**

4 **Trawsnewid yr Adran**

Mae rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ein Cynllun Busnes 2017-18 sydd ar gael yn www.gov.uk

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
11 Gorffennaf 2017

# Adroddiad atebolrwydd



# Adroddiad llywodraethu corfforaethol

## Cyflwyniad

Mae ein Dogfen Fframwaith yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, atebolrwydd, ariannu, staffio a gweithredu a gellir ei gweld yn llawn yn **www.gov.uk/government/organisations/legal-aid-agency/about/our-governance#laa-board**

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu (SC) dros yr LAA, rwyf yn atebol am y defnydd o adnoddau gan yr LAA wrth iddi gyflawni ei swyddogaethau yn unol â'r Ddogfen Fframwaith. Mae Managing Public Money, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, hefyd yn disgrifio cyfrifoldebau SC. Fel SC, rwyf yn bersonol atebol am ddiogelu'r arian cyhoeddus rwyf yn gyfrifol amdano, am sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra wrth drafod arian cyhoeddus ac am reolaeth a gweithrediadau'r LAA o ddydd i ddydd. Yn ogystal â hyn, rhaid i mi sicrhau bod yr LAA gyfan yn cael ei rhedeg yn unol â'r safonau, yn nhermau llywodraethu, penderfynu a rheoli ariannol.

Mae fy adroddiad yn disgrifio'r trefniadau llywodraethu sydd ar waith i reoli risgiau rhag cyflawni'r amcanion a thargedau a gytunwyd ar gyfer yr LAA ac i ddarparu goruchwyliaeth a rheolaeth effeithiol ar ei hadnoddau a'i hasedau. Mae'n cynnwys:

- Adroddiad y Cyfarwyddwyr
- Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu
- Datganiad llywodraethu

# Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae aelodaeth Bwrdd yr LAA, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (PASR) a'r Tîm Arwain Gweithredol wedi'i dangos ar dudalen 34. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol yr LAA ac am fonitro perfformiad ar sail amcanion a gytunwyd.

**Datgan buddiannau Cyfarwyddwyr**

Mae'n ofynnol bod Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd yn datgan unrhyw gyfarwyddiaethau a gwrthdaro buddiannau pan gânt eu penodi. Mae hefyd yn ofynnol i holl Aelodau Gweithredol y Bwrdd ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau sydd heb ei ddatgelu o'r blaen cyn dechrau pob cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau ychwanegol yn ystod 2016-17.

**Digwyddiadau data personol**

Ystyriwyd a oedd unrhyw ddigwyddiad yn ymwneud â data personol mor ddifrifol fel y dylid adrodd arno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau a oedd mor ddifrifol â hyn yn ystod y flwyddyn.

Mae'r datganiad Llywodraethu ar dudalen 30 yn trafod arferion ychwanegol sy'n ymwneud â sicrwydd gwybodaeth a diogelwch data yn yr LAA.

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi cyfarwyddo'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol i baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail sydd wedi'i nodi yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi golwg cywir a theg ar sefyllfa'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol a'i halldro adnoddau net, ei defnydd o adnoddau, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr a llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2016-17 y llywodraeth ac yn benodol:

- cydymffurfio â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ddyroddwyd gan Drysorlys EM, yn cynnwys y gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwysadwy a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau sylweddol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau nad oes, hyd y mae'n gwybod, unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ymwybodol ohoni, a'i fod wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi'i gymryd i gael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno;
- mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a chyfrifon cyfan yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i fod yn derbyn cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a chyfrifon ac am y dyfarniadau sy'n ofynnol i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi dynodi Prif Weithredwr yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn Swyddog Cyfrifyddu yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol, wedi'u hamlinellu yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.



# Datganiad llywodraethu

## Cyflwyniad

Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'm blwyddyn gyntaf fel Prif Weithredwr a SC dros yr LAA. Rwyf yn gyfrifol am gynnal system effeithiol o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion yr LAA, gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau adrannol. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a aseiniwyd i mi yng nghyhoeddiad Trysorlys EM Managing Public Money.

Yn ogystal â hyn, rwyf wedi ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Gwaith Achos Cymorth Cyfreithiol (CGACC), a ddynodwyd i mi gan yr Arglwydd Ganghellor. Fel CGACC, rwyf yn cael cymorth gan Fwrdd yr LAA a chan fy Nhîm Cyfreithiol Canolog i sicrhau bod arferion effeithiol ar waith i gynnal proses penderfynu annibynnol ar gyfer rhoi cymorth cyfreithiol. Mae fy Adroddiad Blynyddol fel CGACC yn darparu crynodeb o benderfyniadau a wnaed, y gwaith a gyflawnwyd ar fy rhan a'r prosesau a ddilynwyd.

## Y berthynas â'r Senedd

Mae'r Senedd yn craffu ar waith yr LAA. Mae hyn yn cynnwys craffu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y Pwyllgor Cyfiawnder a'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. Cyhoeddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei adroddiad ar effeithlonrwydd yn y system cyfiawnder troseddol ym Mai 2016. Roedd yr adroddiad wedi tynnu sylw at feysydd lle mae'r system cyfiawnder troseddol o dan bwysau, yn cynnwys yr effaith o'r gostyngiad mewn gwariant cymorth cyfreithiol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r LAA fel rhan annatod o'r adran, wedi parhau i weithio ar draws y system cyfiawnder troseddol i rannu'r arferion gorau ac i bennu a gweithredu mesurau effeithlonrwydd sy'n gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n defnyddwyr.

## Yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Mae'r LAA yn cynnal gweithdrefn gwynion ddwy haen sy'n darparu ffordd o adolygu cwynion yn wrthrychol cyn i'r achwynydd benderfynu a fydd yn cyfeirio'r mater at yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd drwy ei Aelod Seneddol lleol. Lle bo'n briodol, bydd yr LAA yn ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddog cyswllt yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd er mwyn:

- trafod y cynnydd ar achosion penodol
- darparu diweddariadau ar newidiadau: er enghraifft, newidiadau polisi ac effeithiau posibl ar waith yr Ombwdsmon
- sicrhau bod yr arferion gorau ac adborth cadarnhaol yn cael eu rhannu gan y ddwy ochr.

Mae'r LAA yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â fforwm cwynion i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyfan gan fod y themâu a'r perthnasoedd gweithio'n debyg. Mae hyn yn rhoi cyfle i gydweithio er mwyn parhau i wella ein gwasanaeth trafod cwynion.

Yn ystod 2016-17, roedd 12 o gwynion newydd wedi'u hatgyfeirio i'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd. O'r rhain, roedd chwech wedi'u derbyn ar gyfer ymchwiliad ffurfiol. Daeth yr Ombwdsmon i gasgliadau ar ddau achos a oedd yn mynd rhagddynt yn y flwyddyn hon (mae casgliadau ar achosion yn gallu rhychwantu nifer o flynyddoedd ac nid oes cydberthynas uniongyrchol â chwynion sydd wedi'u codi neu eu cwblhau ym mhob blwyddyn ariannol). O'r achosion a gwblhawyd, nid oedd yr un o'r cwynion wedi'i chadarnhau'n llawn, roedd un wedi'i chadarnhau'n rhannol ac roedd un heb ei chadarnhau. O'r tri argymhelliad a wnaed, cydymffurfiwyd â phob un. Ar ddiwedd ymchwiliad, bydd yr LAA yn cymryd y camau angenrheidiol neu'n cyflawni'r argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon. Gall hyn gyfrannu at newidiadau mewn prosesau a ffyrdd o weithio a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol.

## Fframwaith llywodraethu

Ar fy mhenodi'n Brif Weithredwr ar 1 Ebrill 2016, cychwynnais asesiad o'n trefniadau llywodraethu i sicrhau eu bod yn ategu ffurf newydd y sefydliad ar ôl ystyried y canlynol:

- cwblhau ein rhaglen drawsnewid dair blynedd, yn newid y ddarpariaeth o gymorth cyfreithiol yn unol â Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012
- gweithredu Cynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol (VEDS) yn llwyddiannus yn Awst 2016 a arweiniodd at ostyngiad o 207 yn nifer y gweithlu
- newid arfaethedig i fodel arweinyddiaeth swyddogaethol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn gwella llywodraethu, aliniad, gallu a galluogrwydd yn ein gwasanaethau digidol, cyllid a chyfathrebu.


Trafodwyd yr opsiynau ar gyfer trefniadau newydd â'm tîm Uwch-reolwyr a chytunwyd arnynt gan Fwrdd yr LAA. Mae'r strwythur llywodraethu newydd wedi'i ddangos ar dudalen 33 ac fe'i sefydlwyd gyda'r ymrwymiad i symleiddio ein dull o lywodraethu gan roi gallu digonol yr un pryd i oruchwylio a rheoli blaenoriaethau cyflawni'r LAA. Datblygwyd hyn yn unol â'r egwyddorion yng nghanllaw arferion gorau Trysorlys EM – Corporate Governance in central government departments: Code of Good Practice (y Cod), i'r graddau y mae'n gymwys i asiantaeth weithredol.

Yr unig eithriad i'r Cod yw nad oes gan yr LAA Bwyllgor Enwebu a Llywodraethu pwrpasol i oruchwylio rheolaeth ar dalentau, cynllunio ar gyfer olyniaeth, cynlluniau cymhellion a strwythurau llywodraethu. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn dod o fewn cylch gwaith Bwrdd yr LAA, ei Dîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl.

Roeddem wedi cynnal adolygiad o'r strwythur llywodraethu newydd wedi iddo ymsefydlu yn y sefydliad a chael bod y strwythurau newydd yn gweithio fel y bwriadwyd, gan roi cymorth effeithiol i mi fel Swyddog Cyfrifyddu ac i'r Tîm Arwain Gweithredol cyfan wrth i ni gyflawni ein cyfrifoldebau. Roedd yr adolygiad wedi canolbwyntio ar effeithiolrwydd y pwyllgorau, eu rhyngweithio â'i gilydd, eu hymddygiad, cyfathrebu a phenderfynu. Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad bod y trefniadau llywodraethu wedi cryfhau fframwaith rheolaethau'r sefydliad: mae hyn wedi'i ddangos drwy ei berfformiad cryf parhaus wrth ddarparu gwasanaethau, y rheolaeth ar newid ar draws portffolio'r LAA, y sgôr uwch am ymgysylltu gan staff, a phroses rheoli risg sy'n fwyfwy effeithiol er bod nifer y gweithlu wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r cynllun VEDS.

Mae ein Dogfen Fframwaith yn cael ei diweddaru i adlewyrchu ein strwythur llywodraethu newydd, y newidiadau yn y ffordd y bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu gwasanaethau proffesiynol i'r LAA o dan arweinyddiaeth swyddogaethol, ac i'w chysoni â'r trefniant y mae Trysorlys EM yn ei ffafrio yn Managing Public Money.

## Strwythur llywodraethu






## Aelodaeth pwyllgorau a phresenoldeb yn ystod 2016-17

| AELODAETH | RHYWEDD | BWRDD YR LAA | | TÎM ARWAIN GWEITHREDOL | | PASR | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau | G/B | Aelod | Gwadd | Aelod | Gwadd | Aelod | Gwadd |
| **BWRDD GWEITHREDOL** | | | | | | | |
| **Matthew Coats CB,**<br>Prif Swyddog Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gadawodd 26.01.17)[1] | G | Cadeirydd<br>(tan 26.01.17)<br>9 of 9 | | | | | ✓ |
| **Shaun McNally CBE,**<br>Prif Weithredwr | G | Cadeirydd<br>(tan 27.01.17)<br>11 o 11 | | Cadeirydd | | | ✓ |
| **Hugh Barrett,**<br>Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth (Gadawodd 16.09.16) | G | 5 o 5 | | | | | |
| **James McEwen,**<br>Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol (Penodwyd 01.04.16) | G | 10 o 11 | | ✓ | | | ✓ |
| **Ruth Wayte,**<br>Prif Gynghorydd Cyfreithiol i'r LAA | B | 11 o 11 | | ✓ | | | |
| **Adrian Hannell,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (Penodwyd 29.09.16) | G | 4 o 6 | | ✓ | | | ✓ |
| **Jane Harbottle,**<br>Pennaeth Rheoli Achosion Sifil (Penodwyd 29.09.16) | B | 5 o 6 | | ✓ | | | |
| **Clare Toogood,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (Penodwyd 29.09.16 - 26.01.17) | B | 2 o 4 | | ✓ | | | |
| **Sally Jones,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth y Ganolfan Gorfforaethol (Penodwyd 27.01.17) | B | 2 o 2 | | ✓ | | | |
| **Daniel Flury,**<br>Pennaeth Rheoli Achosion Trosedd (Penodwyd 29.09.16 – 10.03.17) | G | 4 o 5 | | ✓ | | | |
| **David Thomas,**<br>Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd (Penodwyd 11.03.17) | G | 1 o 1 | | ✓ | | | ✓ |
| **AELODAU ANWEITHREDOL Y BWRDD** | | | | | | | |
| **John Grosvenor**<br>(Cyllid) | G | 8 o 11 | | | | Cadeirydd<br>4 o 4 | |
| **Andrew Lockley**<br>(Cyfreithiol) | G | 10 o 11 | | | | 4 o 4 | |
| **Eric Gregory**<br>(Masnachol) | G | 10 o 11 | | | | 4 o 4 | |
| **ERAILL** | | | | | | | |
| Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Newid | B | | | ✓ | | | |
| Pennaeth Achosion Cymhleth Sifil Uchel eu Cost | G | | | ✓ | | | |
| Pennaeth Datblygu a Chomisiynu Gwasanaethau | B | | | ✓ | | | |
| Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y Weinyddiaeth Gyfiawnder | B | | ✓ | ✓ | | | |
| Dirprwy Gyfarwyddwr Digidol | G | | ✓ | ✓ | | | |
| Pennaeth Rheoli Contractau | G | | | ✓ | | | |
| Prif Swyddog Ariannol y Weinyddiaeth Gyfiawnder | G | | ✓ | | | | |
| Cyfarwyddwr y Weinyddiaeth Gyfiawnder dros Bolisi Cymorth Cyfreithiol | B | | ✓ | | | | |

1 Penodwyd Shaun McNally CBE yn Gadeirydd y Bwrdd ar 27 Ionawr 2017, y newid terfynol wrth olynu Prif Weithredwr blaenorol yr LAA, Matthew Coats.

## Rolau a chyfrifoldebau'r pwyllgorau

### Bwrdd yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

Mae Bwrdd yr LAA yn fy nghynorthwyo i fel Swyddog Cyfrifyddu a'm huwch swyddogion eraill wrth gyfarwyddo busnes yr LAA. Y Bwrdd sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros ddarparu cyngor ar lywodraethu a chyfeiriad strategol yr LAA. Mae rhai o gyfrifoldebau'r Bwrdd wedi'u dirprwyo i'w bwyllgorau, fel y dangoswyd ar dudalen 36.

Mae aelodaeth y Bwrdd wedi newid o ganlyniad i'r strwythur llywodraethu newydd. Bellach mae'r aelodaeth yn cynnwys Cadeiryddion pum pwyllgor newydd y Tîm Arwain Gweithredol (Buddsoddi, Newid, Cyllid a Risg, Gweithrediadau a Phobl). Cefais fy mhenodi'n Gadeirydd y Bwrdd ar 27 Ionawr 2017, sef y newid terfynol wrth i mi olynu Prif Weithredwr blaenorol yr LAA, Matthew Coats.

Cynhaliwyd 11 o gyfarfodydd o'r Bwrdd, yn cynnwys dau ddiwrnod strategaeth, yn ystod 2016-17 lle canolbwyntiwyd ar gynllunio ariannol hirdymor, sganio'r gorwel a thechnoleg. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi adolygu agweddau allweddol ar berfformiad a rhaglenni newid yr LAA, gan ganolbwyntio ar gyflawniadau, risgiau a chamau gwella. Wrth ystyried ei effeithiolrwydd ei hun, cytunodd y Bwrdd fod ei ddiwrnodau strategaeth wedi bod yn allweddol o ran atgyfnerthu canlyniad ei arolwg hunanasesu. Rydym wedi gwneud cynnydd ar nifer o gamau gwella, yn cynnwys cynyddu gweithio digidol a pheri bod aelodau'r Bwrdd yn fwy gweladwy yn holl swyddfeydd yr LAA yng Nghymru a Lloegr.

## Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Mae'r PASR yn cynghori'r Bwrdd ar y cyd ar faterion sy'n ymwneud â risg, rheolaeth a llywodraethu, gan wneud defnydd o'i arbenigedd proffesiynol mewn materion ariannol, cyfreithiol a masnachol i herio a chefnogi'r LAA. Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Aelod Anweithredol o'r Bwrdd, sydd hefyd yn aelodau o Fwrdd yr LAA. Nid oes ganddynt unrhyw gyfrifoldebau gweithredol.

Roedd y PASR wedi parhau i oruchwylio a herio'n effeithiol ar ddatganiadau ariannol yr LAA, ei chyfradd gwallau, diogelwch data a threfniadau ar gyfer parhad busnes, a chafodd adroddiadau sicrwydd gan reolwyr a thimau archwilio mewnol ac allanol.

Roedd wedi parhau i chwarae rhan allweddol drwy ddarparu goruchwyliaeth, craffu, cyfeiriad a chymorth yn ystod ymchwiliad yr LAA i bryderon ynghylch hawliadau gan un darparwr am waith iechyd meddwl. Atgyfeiriwyd yr achos i Heddlu Llundain yn Hydref 2015 ac mae'r ymchwiliad sifil a throseddol i'r mater hwn yn parhau. Roedd ein hadolygiad mewnol cychwynnol wedi cadarnhau bod y twyll honedig gan y darparwr yn ddigwyddiad eithriadol ac nad oedd yn adlewyrchu problem systemig ehangach. Ceisiwyd hyder pellach yn ein prosesau drwy adolygiad allanol, a gynhaliwyd gan PwC, a ymchwiliodd i'r ffordd y mae'r LAA yn rheoli risg darparwyr. O ganlyniad i hyn, gwnaed nifer o argymhellion i reolwyr a gafodd eu derbyn a'u gweithredu ar draws yr LAA.

## Y Tîm Arwain Gweithredol

Y Tîm Arwain Gweithredol yw'r pwyllgor uwch sydd â chyfrifoldeb rheoli cyffredinol dros yr LAA. Mae'r Tîm yn gwneud penderfyniadau ar strategaeth yr LAA, ac ar gyfer ei rheoli, yn cynnwys gallu a galluogrwydd yr LAA i gyflawni cynlluniau diwygio'r adran a'r llywodraeth yn y dyfodol, a'r rheoli strategol ar risgiau ar lefel gorfforaethol.

Mae'r Tîm yn goruchwylio gweithrediadau'r LAA ar lefel uchel ac mae'n cael cymorth i gyflawni ei gyfrifoldebau gan bum pwyllgor sydd wedi'u creu i hwyluso trafodaethau manylach am faterion penodol a hefyd i gyflawni tasgau sydd wedi'u dirprwyo iddynt gan y Tîm Arwain Gweithredol.

- **Pwyllgor Gweithrediadau:** Mae'n penderfynu ar weithredu cynigion polisi ac ar optimeiddio prosesau busnes i ddarparu cymorth cyfreithiol yn effeithiol ac effeithlon – yn cynnwys y rhyng-gysylltu â darparwyr. Bydd yn adolygu ac yn herio perfformiad heb ei gyfyngu i Ddangosyddion Perfformiad Allweddol allanol ac mae'n goruchwylio'r rheolaeth ar risgiau gweithredol.
- **Pwyllgor Cyllid a Risg:** Mae'n helpu'r Tîm Arwain Gweithredol i gyflawni ei gyfrifoldebau goruchwylio drwy ganolbwyntio ar brosesau ariannol a rheoli risg yn yr LAA. Mae'n gorff cynghori a herio a fydd yn helpu'r Bwrdd, y Tîm Arwain Gweithredol, y PASR a'r busnes i reoli risg.
- **Pwyllgor Pobl:** Mae'n darparu mewnbwn adeiladol sy'n canolbwyntio ar fusnes, yn penderfynu ac yn darparu sicrwydd bod yr LAA yn cyflawni ei strategaeth bobl a'i chynlluniau galluogrwydd a llesiant.
- **Pwyllgor Buddsoddi:** Mae'n craffu ar achosion busnes ac yn eu cymeradwyo, yn cynnwys dyrannu arian.
- **Pwyllgor Newid:** Mae'n rhoi sicrwydd effeithiol ar allu portffolio newid yr LAA i roi'r budd mwyaf posibl i'r sefydliad a'i bobl.

## Fframwaith rheolaeth fewnol

Pwrpas y system rheolaeth fewnol yw rheoli risg ar lefel dderbyniol, yn hytrach na dileu'r holl risg mewn perthynas â chyflawni ei pholisïau, nodau ac amcanion. Mae wedi'i seilio ar fframwaith sicrwydd yr LAA ac rwyf wedi cael sicrwydd personol am effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol.

Fel yr eglurwyd yn ein model gweithredu uchod, rwyf yn cael cymorth yn fy stiwardiaeth ar adnoddau'r LAA ac wrth reoli ei risgiau gan y Bwrdd, gan fy Nhîm Arwain Gweithredol a chan Gadeiryddion Pwyllgorau. Rwyf yn cael sicrwydd ysgrifenedig gan fy Nirprwy Gyfarwyddwyr ar effeithiolrwydd y rheoli a'r rheolaeth ar risg ar ffurf datganiadau sicrwydd blynyddol. Yn ogystal â hyn, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu llwyfan cyffredin o systemau, polisïau ac arbenigedd digidol, ariannol ac adnoddau dynol sy'n cael eu cymhwyso lle maent yn berthnasol. Rwyf hefyd yn cael gwasanaeth archwilio mewnol gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth, sy'n darparu sicrwydd annibynnol i mi ynghylch effeithiolrwydd yr amgylchedd ar gyfer llywodraethu, rheoli a rheolaeth ar risg yn fy sefydliad.

## Barn Pennaeth Archwilio Mewnol

O'r archwiliadau a gwblhawyd, rhoddwyd sgôr cyfyngedig i dri ohonynt a sgôr cymedrol neu sylweddol i'w gweddill. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud nifer o argymhellion drwy gydol y flwyddyn, ond nid oedd wedi pennu unrhyw argymhellion critigol. Mae wedi gwneud 12 argymhelliad sylweddol a 56 o argymhellion cymedrol yn y meysydd a archwiliwyd. Lle mae wedi gwneud argymhellion sylweddol, roedd y rhain yn ymwneud yn benodol â'r systemau a archwiliwyd ac nid oedd patrwm o wendid mewn rheolaeth. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i fodloni, lle mae argymhellion wedi'u gwneud, fod rheolwyr wedi ymrwymo i gymryd camau priodol. Mae camau gan reolwyr yn cael eu monitro a'u cofnodi'n rheolaidd hefyd gan dîm Sicrwydd yr LAA.

Ar sail y gwaith a gwblhawyd hyd yn hyn ac ar sail gwybodaeth Pennaeth Archwilio Mewnol am y fframweithiau llywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg yn yr LAA, mae wedi darparu sicrwydd ar lefel gymedrol.

## Asesu risgiau a materion arwyddocaol

Fel sefydliad, rydym wedi parhau i reoli risgiau parhaus a chynhenid i'n gallu i gyflawni ein hamcan allweddol, sef darparu cymorth a chyngor cyfreithiol sifil a throseddol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar weithio ochr yn ochr â'n darparwyr cymorth cyfreithiol i gynnal sefydlogrwydd yn y farchnad drwy: ymateb i heriau cyfreithiol i'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud ar ariannu; rheoli ein dibyniaeth ar seilwaith TG y Weinyddiaeth Gyfiawnder a systemau etifeddol yr LAA; y gostyngiad yn y nifer pennau; a lleihau'r tebygolrwydd o dwyll a gwallau yn y gronfa cymorth cyfreithiol. Cymerwyd y camau canlynol i reoli'r meysydd hyn yn ystod y flwyddyn.

**Cydwasanaethau a chyflwyno'r Llwyfan Gweithredu Sengl**

Symudodd yr LAA o lwyfan Phoenix i'r Llwyfan Gweithredu Sengl (SOP) newydd ar draws llywodraeth yn Ionawr 2017 ochr yn ochr â chyrff eraill yng Ngrŵp y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Dim ond ar gyfer costau rhedeg yr LAA y defnyddir y system hon, nid ar gyfer gwariant y gronfa cymorth cyfreithiol, felly nid yw ond yn gyfran fach o'r gwariant sydd wedi'i adlewyrchu yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn.

Yn yr un modd â phob newid i system newydd, mae materion wedi codi sy'n effeithio ar weithrediadau adnoddau dynol a chyllid sy'n cael eu datrys ar fyrder gyda'r darparwr Cydwasanaethau. Ymgymerwyd â gweithdrefnau sicrwydd a gwaith asesu rheolaethau ychwanegol wrth gynhyrchu'r datganiadau ariannol a byddwn yn canolbwyntio ar y rhain wrth optimeiddio rheolaethau a systemau yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

**Sefydlogrwydd y farchnad**

Yn fy natganiad ar gyfer 2015-16, roeddwn wedi adrodd ar ein penderfyniad i ymestyn y contractau trosedd presennol er mwyn cynnal sefydlogrwydd yn y farchnad. Sefydlwyd y prosiect Crime Tender yn Ebrill 2016 i sicrhau bod gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol yn parhau i gael eu darparu drwy gyflwyno Contract Trosedd Safonol 2017 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2017. Roedd hyn yn golygu cynnal ymgynghoriad byr â chyrff cynrychiadol ar gynnwys y contract arfaethedig ar ddechrau Mehefin 2016, cyn agor proses tendro anghystadleuol ym mis Gorffennaf 2016. Cafodd yr LAA gynigion gan fwy na 1,400 o sefydliadau, yr oedd y mwyafrif ohonynt wedi llwyddo i ennill contract mewn o leiaf un maes gwaith. Ers cyhoeddi canlyniadau'r broses tendro ym mis Tachwedd 2016, rydym wedi gweithio gyda darparwyr i sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd ar eu tendrau wedi'i gwirio ac i'w paratoi i weithredu o dan y contract newydd. Mae contract 2017 wedi'i seilio i raddau helaeth ar Gontract Trosedd Safonol 2010, ac felly mae'r egwyddorion allweddol yn cynnwys:

- contract sengl sy'n cynnwys gwaith gyda'u cleientiaid eu hunain a gwaith dyletswydd
- cadw ardaloedd presennol y cyfreithwyr dyletswydd
- peidio â gwneud gwaith dyletswydd yn orfodol.

Fodd bynnag, mae'r contract wedi'i ddiweddaru lle roedd hynny'n briodol i adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol. Mae hefyd yn delio â'r mater o ddyrannu slotiau i gyfreithwyr dyletswydd nad oes ganddynt hawl i'w cael, yn egluro'r gofynion ar gyfer goruchwylwyr ac yn creu set gydlynus o ddarpariaethau sy'n adlewyrchu newidiadau yn y ffordd o ddarparu gwaith dyletswydd ers drafftio'r darpariaethau hyn yn wreiddiol.

**Gwasanaethau TG**

Bellach mae mwy na 90% o'r ceisiadau a biliau a gyflwynir i ni yn cael eu cwblhau a'u prosesu ar-lein. Felly, mae ymyriadau â TG yn gallu cael effaith sylweddol ar y gallu i gyflwyno a phrosesu ceisiadau a thaliadau am gymorth cyfreithiol, ar forâl y staff, ar wasanaethau i'r cyhoedd ac ar berthnasoedd â rhanddeiliaid. Mae ein timau pwrpasol ar gyfer rheoli digwyddiadau a chynnal gwasanaethau byw yn parhau i weithio ar ein prosesau parhad busnes i leihau effeithiau a delio ag unrhyw ymyriadau gyda'n darparwyr gwasanaethau. Mae gennym brosesau llaw wrth gefn i sicrhau ein bod yn gallu rhoi blaenoriaeth i achosion brys yn ystod cyfnodau o ymyrraeth. Rydym wedi gwella ein dull rhagweithiol o fonitro ceisiadau i sicrhau bod modd canfod unrhyw anawsterau a'u datrys mor gyflym â phosibl.

Rydym hefyd wedi parhau i gywiro gwendidau mewn systemau, wedi uwchraddio systemau ac wedi gosod patsys hanfodol. Cafwyd mwy o welliannau yn sefydlogrwydd ein systemau ac ym modlonrwydd defnyddwyr o ganlyniad i hyn. Bellach mae nifer y digwyddiadau TG uchel eu blaenoriaeth a geir bob mis yn systemau'r LAA yn ffigur isel un digid. Er hynny, mae angen gwneud rhagor i wella'r seilwaith gan ei fod yn achosi problemau o hyd. Bydd ein tîm lletya strategol yn delio â nifer o'r gwendidau hyn ac yn sicrhau bod systemau'n gydnerth, eu bod ar gael yn rhwydd a'u bod yn perfformio'n dda.

**Cynllun Ymadael Cynnar Gwirfoddol**
Ar ôl lleihau'r llwyth gwaith yn barod drwy gyflwyno diwygiadau o dan y Rhaglen Trawsnewid Cymorth Cyfreithiol, gan ddod yn fwy digidol a symud prosesau ar-lein, roeddem yn gallu newid ffurf y sefydliad i gyd-fynd â ffordd o weithio sy'n fwyfwy awtomataidd. Roedd yr arbedion effeithlonrwydd a gafwyd o ganlyniad i hyn yn caniatáu i ni ryddhau staff. Roeddem wedi datblygu VEDS i ganiatáu i staff adael y sefydliad yn wirfoddol. Datblygwyd meini prawf tryloyw ar gymhwystra i sicrhau ein bod yn cadw cyflogeion sydd â'r perfformiad gorau a'r rheini sy'n hanfodol i fusnes. Cytunwyd ar hyn gan y Tîm Arwain Gweithredol a'r Undebau Llafur Adrannol.

Cafodd y cynllun ei redeg yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet a My Civil Service Pension. Datblygwyd cynllun pontio manwl ar y cyd â Dirprwy Gyfarwyddwyr ar gyfer yr holl dimau yn yr LAA. Mae'r rhaglen wedi'i chwblhau'n llwyddiannus ac mae 207 o gyflogeion wedi ymadael, tra oeddem yn parhau i gyrraedd ein targedau ar gyfer perfformiad a darparu gwasanaethau. Mae'r arbedion ar weinyddu a sicrhawyd wedi helpu'r LAA i gyrraedd y targedau effeithlonrwydd a bennwyd ar ei chyfer yn Adolygiad o Wariant 2015.

**Cyfradd gwallau**
Oherwydd natur gymhleth cymorth cyfreithiol, mae risg gynhenid o gyflwyno gwallau o ganlyniad i asesu anghywir, neu daliadau anghywir, ac mae hyn yn cael ei ystyried drwy'r amser o dan ein trefniadau stiwardiaeth ar gyfer craffu a rheoli. Ceir newidiadau drwy'r amser yn ein prosesau ymgeisio a thalu o ganlyniad i newidiadau mewn polisi a gweinyddu. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar leihau gwallau mewn ffordd gyson a chynaliadwy drwy gydweithio'n agos â darparwyr, a chydweithio rhwng ein timau rheoli contractau, rheoli achosion, cyllid a digidol i adnabod a delio â'r achosion sylfaenol a chryfhau rheolaethau mewnol a chydymffurfiaeth gan ddarparwyr. Yn ogystal â hyn, rydym yn adolygu ac yn adennill taliadau afreolaidd oddi wrth gleientiaid a darparwyr.

Materion penodol i'w nodi yn y flwyddyn hon:

- mwy o wallau mewn asesiadau Trosedd Uwch oherwydd anhawster wrth ddilysu Tudalennau o Dystiolaeth yr Erlyniad a gyflwynwyd yn electronig. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar ddilysu'r deunydd hwn ac wedi cyfrannu at ailgynllunio'r cynllun ffioedd er mwyn datrys y mater hwn
- gwallau mewn biliau Cynrychiolaeth Sifil, sy'n cael sylw drwy graffu manwl ar filiau a aseswyd gan y Llysoedd, gwella rheolaethau ar achosion yr Uchel Lys ac addysgu darparwyr
- mae lefel y gwallau mewn Trosedd Is wedi gostwng yn 2016-17. Mae'r camau lliniaru yn cynnwys mwy o archwilio a hyfforddi darparwyr
- mae ein cyfradd gwallau ar waith cywirdeb Help Cyfreithiol yn parhau ar ddim.

Ein hamcangyfrif o werth gros y gwallau oedd £18.3 miliwn (2015-16: £19.0 miliwn). Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar adennill gordaliadau o gymorth cyfreithiol, ac mae hyn wedi helpu i ostwng lefel y gwallau mwyaf tebygol i sefyllfa net o £12.9 miliwn neu 0.8% o wariant (2015-16: £12.9 miliwn neu 0.8% o wariant). Ar sail y technegau samplu ystadegol a ddefnyddiwyd, mae gennym hyder o 95% fod lefel wirioneddol y gwallau rhwng 0.5% ac 1.1% o'r gwariant cymorth cyfreithiol.

**Twyll**

Mae'r gweithgareddau pwysicaf ar atal twyll yn cael eu dwyn i sylw'r Bwrdd a'r PASR. Mae ein polisi twyll a strategaeth atal twyll yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, ac adroddir bob mis ar y cynllun gweithredu ar dwyll a gweithgareddau atal twyll. Rydym yn hybu ymwybyddiaeth o dwyll ymysg ein pobl a'n rhanddeiliaid drwy gyflwyniadau, erthyglau ar y fewnrwyd a darparu cyngor.

Fel rhan o Grŵp Datblygu ac Atal Twyll y Weinyddiaeth Gyfiawnder, rydym yn cymryd rhan yn y Fenter Genedlaethol ar Atal Twyll ac yn cydweithio'n agos â Swyddfa'r Cabinet ar nifer o fesurau i atal a darganfod twyll. Rydym yn parhau i feithrin cysylltiadau gweithio agos â'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr, Cyllid a Thollau EM a GLlTEM i gasglu gwybodaeth, rhannu data a datblygu ein camau atal ac erlyn. Rydym yn cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a Gwasanaeth Erlyn y Goron i sicrhau bod safonau ac arferion cenedlaethol ar ffeiliau'n cael eu dilyn.

Roedd gweithgarwch atal twyll yr LAA yn 2016-17 wedi arwain at adennill neu gadw

**£1.46 miliwn**
o arian cyhoeddus

o'i gymharu ag
**£1.9 miliwn**
yn 2015-16

**Yn 2016-17**

roedd yr LAA wedi parhau i gymhwyso ei dull seiliedig ar risg at atal, darganfod ac ymchwilio i achosion lle'r oedd amheuaeth o dwyll.

## Chwythu'r chwiban

Mae ein pobl yn gallu gwneud defnydd o bolisi a rhwydwaith cymorth chwythu'r chwiban y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer yr adran gyfan. Mae hyn yn darparu ar gyfer cysylltu â swyddogion annibynnol, a fydd yn helpu'r unigolyn i godi ei bryderon. Yn ystod y flwyddyn, roedd ein tîm Cyfathrebu wedi hybu ymwybyddiaeth o drefniadau chwythu'r chwiban a ffyrdd o godi pryderon ar LAA TV, sy'n cyrraedd ein holl swyddfeydd. Ni chofnodwyd unrhyw ddefnydd o'r llwybr hwn gan chwythwyr chwiban.

## Sicrwydd gwybodaeth a diogelwch data

Mae'r LAA yn trafod nifer mawr o ddata personol sy'n eiddo i'w chleientiaid bob diwrnod. Felly, mae diogelwch gwybodaeth yn bwysig iawn yn ein golwg ac rydym yn cyfarwyddo ein pobl i gwblhau hyfforddiant gorfodol ar eu cyfrifoldebau wrth drafod gwybodaeth. Ymchwilir i bob digwyddiad i sicrhau bod yr achosion sylfaenol yn cael eu hadnabod a'u cywiro lle bo modd. Yn ogystal â hyn, mae'r PASR yn herio ein perfformiad ar reoli digwyddiadau gan ddarparu cyfarwyddyd a goruchwyliaeth.

Yn 2016-17, cofnodwyd 248 o ddigwyddiadau a oedd yn ymwneud â data personol ac ymchwiliwyd iddynt yn unol â'n gweithdrefnau cytunedig ar gofnodi. Penderfynwyd nad oedd yr un ohonynt yn adroddadwy i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.




| CATEGORI | NATUR Y DIGWYDDIAD | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| I | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur a oedd heb eu diogelu'n ddigonol o safleoedd diogel llywodraeth | 79 | 99 |
| II | Colli cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur a oedd heb eu diogelu'n ddigonol y tu allan i safleoedd diogel llywodraeth | 25 | 29 |
| III | Gwaredu cyfarpar electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur a oedd heb eu diogelu'n ddigonol mewn ffordd anniogel | 0 | 0 |
| IV | Datgelu heb awdurdod | 131 | 230 |
| V | Arall (methu â chydymffurfio â pholisi) | 13 | 0 |
| Cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd | | 248 | 358 |

## Casgliad

Rwyf yn hyderus bod y datganiad hwn yn darparu disgrifiad cynhwysfawr o'r trefniadau ar gyfer llywodraethu, rheoli a rheolaeth risg rydym wedi'u sefydlu yn yr LAA. Mae llwyddiant y trefniadau hyn yn ganlyniad i'r bobl a'r prosesau sydd ar waith, sydd wedi sicrhau bod yr LAA wedi cyflawni ei hamcanion busnes a'i bod yn parhau'n lle cefnogol ac arloesol i weithio ynddo fel y mae ein canlyniadau yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil yn dangos.

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
11 Gorffennaf 2017

# Adroddiad tâl a staff

Mae'r bennod hon yn darparu crynodeb o bolisi'r LAA ar dâl Aelodau Gweithredol ac Anweithredol o'r Bwrdd a'r staff. Mae hefyd yn darparu manylion am gostau gwirioneddol a threfniadau contractiol.

Paratowyd yr Adroddiad tâl a staff yn unol â gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Mae'r Prif Weinidog yn gosod y Polisi ar Dâl Uwch-weision Sifil ar ôl cael cyngor annibynnol gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Pennwyd cyflogau aelodau Gweithredol o Fwrdd yr LAA yn dilyn trafodaethau rhwng Ysgrifennydd Parhaol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chyfarwyddwyr Cyffredinol yn unol â'r rheolau yng Nghod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil.

Nid oes Pwyllgor Tâl gan yr LAA. Mae prif swyddogaethau'r pwyllgor hwn yn cael eu trafod drwy Bwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cadeirydd Pwyllgor Gweithlu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yw'r Ysgrifennydd Parhaol a bydd holl Gyfarwyddwyr Cyffredinol a Phrif Weithredwyr y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf, GLlTEM a'r LAA yn bresennol yn ei gyfarfodydd. Mae'r pwyllgor yn cwrdd bob mis i reoli talentau, galluogrwydd ac adnoddau pobl. Yn ogystal â hyn, mae'r pwyllgor yn gyfrifol am sicrhau bod gweithlu gan yr LAA sydd o'r maint cywir, sydd â'r sgiliau priodol, sy'n cael ei reoli'n dda, ei ysgogi'n briodol a'i drefnu'n gywir.

Mae'r tablau yn yr adroddiad hwn wedi'u harchwilio gan yr archwilydd allanol, y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000.

# Polisi tâl

## Aelodau Gweithredol y Bwrdd

**Contractau gwasanaeth**
Mae Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 yn ei gwneud yn ofynnol bod gweision sifil yn cael eu penodi yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn pennu'r amgylchiadau lle gellir penodi mewn ffordd arall.

Mae'r Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n benagored. Byddai eu terfynu'n gynnar, heblaw am gamymddwyn, yn arwain at ddigolledu'r unigolyn yn unol â Chynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

**Proses perfformiad**
Mae Uwch-weision Sifil yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet sy'n cynnwys Fframwaith Rheoli Perfformiad Uwch-weision Sifil. Cynhaliwyd dwy drafodaeth 'ffurfiol' ar gyfer Adolygiad Rheoli Perfformiad yn ystod y flwyddyn ac wedyn cyfarfodydd un-i-un rheolaidd i fonitro cynnydd a sicrhau bod yr holl amcanion yn parhau'n berthnasol. Bodlonwyd yr holl fesurau perfformiad ar gyfer pob Aelod Gweithredol o'r Bwrdd.

**Cyfanswm cyflogau a ffioedd**
Mae cyflog a lwfansau yn cynnwys symiau pensiynadwy ac amhensiynadwy ac yn cynnwys cyflogau gros; goramser; hawliau a gadwyd i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat neu lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn drethadwy yn y DU ac unrhyw daliadau cydnabyddiaeth. Nid yw'n cynnwys symiau sy'n ad-daliad am dreuliau a ysgwyddwyd yn uniongyrchol wrth gyflawni dyletswyddau'r unigolyn.

**Yr holl fuddion trethadwy**
Mae buddion trethadwy yn cynnwys yr holl fuddion mewn nwyddau a buddion arian parod trethadwy. Mae gwerth ariannol buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarparwyd gan y cyflogwr ac sy'n cael eu trin fel enillion trethadwy gan Gyllid a Thollau EM.

Cydnabyddir buddion sy'n ymwneud â theithio a chynhaliaeth. Mae'r buddion mewn nwyddau a ddatganwyd ar gyfer Aelodau Gweithredol ac Anweithredol o'r Bwrdd yn amcangyfrifon: cytunir ar y gwerthoedd terfynol rhwng yr LAA a Chyllid a Thollau EM, ac fe'u telir o dan Gytundeb Setliad TWE.

**Taliadau bonws**

Mae taliadau bonws wedi'u seilio ar lefelau perfformiad a gyrhaeddwyd ac fe'u gwneir yn rhan o'r broses arfarnu. Mae taliadau bonws yn gysylltiedig â'r perfformiad yn y flwyddyn y maent yn dod yn daladwy i'r unigolyn. Mae'r taliadau bonws a gofnodwyd yn 2016-17 yn ymwneud â'r perfformiad yn 2015-16 ac mae'r taliadau bonws a gofnodwyd yn 2015-16 yn ymwneud â'r perfformiad yn 2014-15.

**Yr holl fuddion cysylltiedig â phensiwn**

Mae adran 229 o Ddeddf Cyllid 2004 yn pennu lefel flynyddol uchaf y cynilion pensiwn y gellir eu cronni o dan drefniant buddion wedi'u diffinio cyn eu trethu. Swm y cynilion a ddangosir yn Nhabl A yw'r cynnydd yng ngwerth y buddion sydd wedi'u haddo i'r unigolyn dros y cyfnod mewnbynnu i'r pensiwn (sef y flwyddyn ariannol yn achos yr LAA). Unrhyw gynnydd a geir yw'r gwahaniaeth rhwng gwerth buddion yr unigolyn ar ddechrau'r cyfnod mewnbynnu i'r pensiwn (1 Ebrill 2016) a gwerth buddion yr unigolyn ar ddiwedd y cyfnod mewnbynnu i'r pensiwn (31 Mawrth 2017); mae hyn yn cynnwys hefyd unrhyw gynnydd mewn tâl pensiynadwy.

Mae rheoliadau'n pennu addasiad i reolau Cyllid a Thollau EM i'r diben hwn. Er mwyn prisio'r buddion, mae Trysorlys EM wedi cynghori cynlluniau pensiwn i ddefnyddio 20 yn lluosydd.

## Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Cafodd tri Aelod Anweithredol o'r Bwrdd eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored yn unol â Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010. Fe'u penodwyd ar sail teilyngdod a chan gydnabod eu priod alluoedd a phrofiad gan banel a oedd yn cynnwys un o Gyfarwyddwyr Anweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arbenigwr pwnc dirprwyedig fel yr oedd yn berthnasol. Penododd y Prif Weithredwr yr Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd am gyfnod penodedig o dair blynedd; yn ystod 2015-16 roedd contractau'r holl Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd wedi'u hymestyn dair blynedd.

Nid yw Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), ac nid oedd ganddynt hawl i unrhyw fuddion neu daliadau eraill.

Pe byddai penodiad Aelod Anweithredol o'r Bwrdd yn cael ei derfynu am resymau heblaw bod ei dymor yn dod i ben, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu penderfynu bod digollediad yn daladwy ar sail natur y terfynu a hyd y tymor sy'n weddill.

Mae manylion am gyfnodau gwasanaeth Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd, eu buddion a'u taliadau yn Nhablau E ac F.

## Tabl A: Cyflogeion uwch mewn swydd ar 31 Mawrth 2017 – Costau cyflogaeth

| | 2016-17 | | | | | 2015-16 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodau Bwrdd Gweithredol | Cyfanswm cyflog a ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy (i'r £100 agosaf) | Taliadau Bonws | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) | Total amount of salary and fees | Cyfanswm cyflog a ffioedd | Taliadau Bonws | Buddion cysylltiedig â phensiwn (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm (i'r £1000 agosaf) |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Matthew Coats CB**[1] Cadeirydd Bwrdd yr LAA (Hyd 26.01.17) | - | - | - | - | - | 140-145 | - | - | 77 | 220-225 |
| **Shaun McNally CBE** Prif Weithredwr Cadeirydd Bwrdd yr LAA (O 27.01.17) | 90-95 | 41.7[2 10] | 10-15 | 74 | 220-225 | 90-95 | 42.9 | 10-15 | 36 | 180-185 |
| **Hugh Barrett**[3] Cyfarwyddwr Comisiynu a Strategaeth (Gadawodd 16.09.16) | 70-75 (140-145 CBL) | - | - | 44 | 110-115 | 140-145 | - | - | 40 | 180-185 |
| Cyfarwyddwr Cyllid a Digidol (o 1.04.16) | 85-90 | - | - | 147[9] | 230-235 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| **Ruth Wayte**[4] Prif Gynghorydd Cyfreithiol i'r LAA | 95-100 | - | - | 38 | 135-140 | 95-100 | - | - | 39 | 135-140 |
| **Adrian Hannell**[5] Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (O 29.09.16) | 45–50 (85-90 CBL) | - | - | 18 | 60-65 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| **Jane Harbottle**[5] Pennaeth Rheoli Achosion Sifil (O 29.09.16) | 35–40 (75-80 CBL) | 10.8[8 11] | - | 65 | 115-120 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| **Clare Toogood**[5,6] Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus (29.09.16–26.01.17) | 20–25 (85-90 CBL) | - | - | 7 | 25-30 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| **Sally Jones**[5,6] Dirprwy Gyfarwyddwr, Pennaeth y Ganolfan Gorfforaethol (O 27.01.17) | 10–15 (65-70 CBL) | - | - | 5 | 15-20 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| **Daniel Flury**[5,7] Pennaeth Rheoli Achosion Trosedd (29.09.16-10.03.17) | 30–35 (60-65 CBL) | 7.1[8 12] | - | 14 | 50-55 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |
| **David Thomas**[5, 7] Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd (O 11.03.17) | 0–5 (70-75 CBL) | - | - | 4 | 5-10 | amh. | amh. | amh. | amh. | amh. |

1. Talwyd Matthew Coats CB, Prif Swyddog Gweithredol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, drwy Adran Graidd y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae manylion ei daliadau yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
2. Fel Prif Weithredwr, gwnaed cytundeb gweithle deuol ar ei gyfer ac mae'r costau'n dangos y buddion mewn nwyddau am yr holl deithio rhwng lleoliadau'r gweithle deuol.
3. Gadawodd Hugh Barrett ar 16 Medi 2016. Cafodd becyn ymadael o £90mil-95mil.
4. Telir Ruth Wayte drwy Adran Gyfreithiol y Llywodraeth.
5. Cytunwyd ar y strwythur llywodraethu newydd ar 29 Medi 2016, yn cynnwys penodi Cadeiryddion Pwyllgorau'r LAA i'r Bwrdd.
6. Cyflogwyd Clare Toogood yn rhan-amser (0.76 CALl). Cymerwyd lle Clare fel Cadeirydd Pwyllgor Pobl yr LAA gan Sally Jones ar 27 Ionawr 2017.
7. Cymerwyd lle Daniel Flury fel Cadeirydd Pwyllgor Newid yr LAA gan David Thomas ar 11 Mawrth 2017.
8. Mae cytundeb gweithle deuol gan Jane Harbottle a Daniel Flury. Mae'r costau'n dangos y buddion mewn nwyddau am yr holl deithio rhwng lleoliadau'r gweithle deuol am y cyfnod o'r flwyddyn fel aelod o Fwrdd yr LAA.
9. Mae buddion pensiwn James McEwen yn cynnwys ailbrisiad untro o hawliau pensiwn hanesyddol ar ôl ymuno â'r LAA ar 1 Ebrill 2016.
10. Ad-dalwyd £4.6mil o'r holl fuddion trethadwy mewn arian parod drwy gytundeb setliad TWE.
11. Ad-dalwyd £0.9mil o'r holl fuddion trethadwy mewn arian parod drwy gytundeb setliad TWE.
12. Ad-dalwyd £0.9mil o'r holl fuddion trethadwy mewn arian parod drwy gytundeb setliad TWE.

### Tabl B: Band tâl yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd uchaf ei dâl

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Band cyfanswm tâl yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd uchaf ei dâl heb gynnwys buddion pensiwn (£000) | 145-150 | 140-145 |
| Cyfanswm y tâl canolrifol (£) | 22,250 | 21,982 |
| Cymhareb | 6.6 : 1 | 6.5 : 1 |

Mae'n ofynnol bod cyrff adrodd yn datgelu'r berthynas rhwng cyflog yr Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd uchaf eu tâl yn eu sefydliad ac enillion canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Y band tâl ar gyfer yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd uchaf ei dâl yn yr LAA yn y flwyddyn ariannol 2016-17 oedd £145-150mil (2015-16: £140-145mil). Roedd hyn yn 6.6 gwaith (2015-16: 6.5) tâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £22,250 (2015-16: £21,982).

Yn 2016-17, cafodd un contractwr (2015-16: 1) dâl yn y band £185mil-190mil (2015-16: £190mil-195mil) a oedd yn fwy na thâl yr Aelod Gweithredol o'r Bwrdd uchaf ei dâl.

Roedd taliadau i staff yn amrywio o £10mil-15mil i £185-190mil (2015-16: £10mil-15mil i £190-195mil). Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unrhyw daliadau diswyddo mewn perthynas â diswyddo gorfodol ac ymadael cynnar gwirfoddol a ddatgelir yn yr adroddiad Staff ar dudalen 51.

Roedd cyfanswm y taliadau'n cynnwys cyflog, tâl cysylltiedig â pherfformiad ar wahân, a buddion mewn nwyddau yn ogystal â thaliadau diswyddo.  Nid oedd yn cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

### Tabl C: Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd – Contractau cyflogaeth

| Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd | Dyddiad dechrau'r contract | Cyfnod a wasanaethwyd (bl) | Cyfnod rhybudd (mis) |
|---|---|---|---|
| Shaun McNally CBE | 22 Hydref 2012 | 3 | 3 |
| James McEwen | 1 Ebrill 2016 | 1 | 3 |
| Ruth Wayte | 7 Gorffennaf 2003 | 12 | 3 |
| Adrian Hannell | 1 Ebrill 2016 | 1 | 3 |
| Jane Harbottle | 1 Ebrill 2016 | 1 | 3 |
| Sally Jones | 4 Ebrill 2016 | 1 | 3 |
| David Thomas | 16 Ionawr 2017 | 1 | 3 |

# Buddion pensiwn y Gwasanaeth Sifil

## Cyflwyno Alpha

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu Alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch).

O'r dyddiad hwnnw, roedd yr holl weision sifil a benodwyd o'r newydd a mwyafrif y rheini sydd eisoes yn y gwasanaeth wedi ymuno ag Alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym mhedair adran y PCSPS, tair ohonynt yn darparu buddion ar sail y cyflog terfynol (Classic, Premium a Classic Plus) ag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (Nuvos) ag oedran pensiwn arferol o 65.

Roedd aelodau presennol o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi aros yn eu hadrannau perthnasol yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn ymuno ag Alpha rywdro rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022.

Yn achos yr holl aelodau sydd wedi ymuno ag Alpha, bydd buddion y maent wedi'u cadw o'r PCSPS yn cael eu 'bancio'. Yn achos aelodau sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS, bydd y buddion hynny wedi'u seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a nodwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu Alpha – fel y bo'n briodol. Os oes buddion gan swyddog yn y PCSPS ac yn Alpha, y ffigur a nodwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

## Ariannu'r PCSPS

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi cael eu hariannu ac mae cost buddion yn cael ei thalu ag arian sy'n cael ei ddyrannu drwy bleidlais gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan Classic, Premium, Classic Plus, Nuvos ac Alpha yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â deddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau.

## Cyfraddau cyfrannu'r cyflogai

Mae cyfraniadau'r cyflogai yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy ar gyfer aelodau o Classic (ac aelodau o Alpha a oedd yn aelodau o Classic yn union cyn ymuno ag Alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% ar gyfer aelodau Premium, Classic Plus, Nuvos a holl aelodau eraill Alpha.

## Buddion cynlluniau pensiwn

Mae buddion Classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal â hyn, mae cyfandaliad cyfwerth â'r pensiwn cychwynnol am dair blynedd yn daladwy wrth ymddeol.

O dan Premium, mae buddion yn cronni ar gyfradd o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i Classic, ni thelir cyfandaliad yn awtomatig.

Mae Classic Plus yn gynllun hybrid i bob pwrpas ac mae buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo mewn ffordd debyg i Classic a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn yr un ffordd â Premium.

O dan Nuvos, mae aelod yn cronni buddion pensiwn ar sail ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod yn aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd y flwyddyn gynllun (31 Mawrth), mae cyfrif y pensiwn a enillwyd gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn a gronnwyd yn cael ei uwchraddio'n unol â deddfwriaeth ar Gynyddu Pensiynau.

Mae buddion yn Alpha yn cronni mewn ffordd debyg i Nuvos, heblaw bod y gyfradd cronni yn 2.32%.

Ym mhob achos, gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodwyd gan Ddeddf Cyllid 2004.

## Cyfrif pensiwn partneriaeth

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad sylfaenol sydd rhwng 8% a 14.75% (yn ôl oed yr aelod) i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid sydd wedi'i ddewis gan y cyflogai oddi wrth banel o ddarparwyr. Nid yw'r cyflogai'n gorfod cyfrannu ond, os bydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniadau cyfwerth hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (ar ben cyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% pellach o'r cyflog pensiynadwy i dalu am gost yswiriant rhag risg i fuddion a ddarperir yn ganolog (i ddarparu ar gyfer marw yn y swydd ac ymddeol ar sail afiechyd).

Y croniadau pensiwn a nodwyd yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau Classic, Premium a Classic Plus, 65 ar gyfer aelodau Nuvos, a'r uchaf o 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau Alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a nodwyd ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu Alpha – fel y bo'n briodol. Os oes buddion gan swyddog yn y PCSPS ac yn Alpha, y ffigur a nodwyd yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicepensionscheme.org.uk

### Tabl D: Aelodau Gweithredol o'r Bwrdd – Costau pensiwn am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd sy'n daladwy yn 60 oed ar 31 Mawrth 2017 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Symudiad gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig sy'n daladwy yn 60 oed | CETV ar 31 Mawrth 2017 | CETV ar 31 Mawrth 2016 | Gwir gynnydd mewn CETV |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Shaun McNally CBE | Pensiwn 35-40<br>Cyfandaliad 100-105 | Pensiwn 2.5-5<br>Cyfandaliad 2.5-5 | 662 | 588 | 45 |
| Hugh Barrett | 20-25 | 0-2.5 | 489 | 438 | 43 |
| James McEwen | 20-25 | 7.5-10 | 252 | 170 | 70 |
| Ruth Wayte | 5-10 | 0-2.5 | 106 | 78 | 19 |
| Adrian Hannell | 0-5 | 0-2.5 | 19 | 9[1] | 6 |
| Jane Harbottle | 20-25 | 2.5-5 | 283 | 239[1] | 41 |
| Clare Toogood | 20-25 | 0-2.5 | 324 | 320[1] | 3 |
| Sally Jones | 5-10 | 0-2.5 | 71 | 69[1] | 1 |
| Daniel Flury | 15-20 | 0-2.5 | 224 | 216[1] | 5 |
| David Thomas | 10-15 | 0-2.5 | 120 | 115[1] | 2 |

1. Mae symiau CETV yn gysylltiedig â'r dyddiad pan ymunodd yr Aelod Gweithredol â'r Bwrdd.

## Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf y buddion a gronnwyd mewn cynllun pensiwn gan aelod ar amser penodol, ar sail asesiad gan actiwari. Mae'r budd a brisiwyd hefyd yn cynnwys unrhyw bensiwn sy'n daladwy i briod dibynnol gan y cynllun. Pan fydd aelod yn gadael ei gynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd ganddo, gwneir taliad CETV gan y cynllun i gynllun pensiwn cofrestredig arall.

Mae'r ffigurau pensiwn a ddangoswyd yn ymwneud â buddion a gronnwyd dros holl gyfnod yr aelodaeth o'r cynllun ac yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn a drosglwyddwyd i'r PCSPS o drefniadau pensiwn eraill. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw'n ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu ddichonol mewn buddion o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan gymerir y buddion pensiwn.

## Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn dangos y cynnydd mewn CETV sydd wedi'i ariannu gan y cyflogwr heb gynnwys effaith amrywiadau yn y gwerth trosglwyddo, fel symudiadau mewn marchnadoedd buddsoddi. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn a gronnwyd yn unol â chwyddiant neu gyfraniad a dalwyd gan y cyflogai, ond mae'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn arall. Defnyddir ffactorau prisio marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

# Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

Roedd Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn cyflawni rôl ran-amser a oedd yn golygu ymrwymiad o 20 niwrnod y flwyddyn yn ystod 2016-17. Byddant yn dal eu swydd tan ddiwedd y cyfnod y penodwyd nhw ar ei gyfer.

## Costau cyflogaeth – Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

### Tabl E: Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd yn eu swydd ar 31 Mawrth 2017 – Costau cyflogaeth

| | 2016-17 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| Aelod Anweithredol o'r Bwrdd | Cyfanswm ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy[2] | Cyfanswm ffioedd | Yr holl fuddion trethadwy |
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| John Grosvenor<br>ARAC Chair | 10.4[1] | 0.4[3] | 10.4[1] | 0.6[3] |
| Eric Gregory | 8.0 | 0.5[3] | 8.0 | 1.1[3] |
| Andrew Lockley | 8.0 | 1.9[3] | 8.0 | 2.1[3] |

1. Mae hyn yn cynnwys tâl o £2,400 iddo fel Cadeirydd y PASR
2. Mae cost y treuliau'n amrywio yn ôl y pellter rhwng cartref yr Aelod Anweithredol a swyddfa'r LAA, ymrwymiadau teithio eraill sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl, ac ymrwymiad amser yr Aelod Anweithredol hwnnw. Ad-dalwyd Aelodau Anweithredol am gostau teithio a threuliau eraill yn cynnwys unrhyw dreth a dalwyd ar y treuliau hynny.
3. Yn achos Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd, rhaid talu Treth Incwm ac Yswiriant Gwladol ar hawliadau am gostau teithio a chynhaliaeth o dan reolau Cyllid a Thollau EM. Telir hyn mewn arian parod gan yr LAA drwy Gytundeb Setliad TWE.

## Contractau cyflogaeth - Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd

### Tabl F: Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd – Contractau cyflogaeth

| Aelod Anweithredol o'r Bwrdd | Dyddiad dechrau'r contract | Cyfnod a wasanaethwyd (blynyddoedd) |
|---|---|---|
| John Grosvenor | 1 Tachwedd 2012 | 4 |
| Eric Gregory | 1 Ionawr 2013 | 4 |
| Andrew Lockley | 31 Ionawr 2013 | 4 |

Estynnwyd cyfnod contractau'r holl Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd o dair blynedd yn 2015-16.

# Adroddiad staff

## Costau staff

### Tabl G: Costau staff am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | 2016-17 | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir Staff a gyflogi yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Yn barhaol | Eraill | Eraill |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau | 39,067 | 4,003 | 43,070 | 42,964 | 7,579 | 50,543 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,934 | 231 | 4,165 | 3,233 | 193 | 3,426 |
| Costau pensiwn eraill | 7,554 | 463 | 8,017 | 8,030 | 445 | 8,475 |
| | 50,555 | 4,697 | 55,252 | 54,227 | 8,217 | 62,444 |
| Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondio allan | (142) | - | (142) | (333) | - | (333) |
| Diswyddo[1] | 141 | - | 141 | 7,063 | - | 7,063 |
| | 50,554 | 4,697 | 55,251 | 60,957 | 8,217 | 69,174 |
| | | | | | | |
| Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd (ffioedd a buddion) | 29 | - | 29 | 30 | - | 30 |
| | 29 | - | 29 | 30 | - | 30 |
| Cyfanswm | 50,583 | 4,697 | 55,280 | 60,987 | 8,217 | 69,204 |

1. Mae costau diswyddo a ddatgelwyd yn y tabl uchod yn ymwneud â thri aelod staff cyfwerth ag amser llawn (2015-16: 206).

Yn ystod y flwyddyn, cyfalafwyd £3,923mil o gostau staff (2015-16: £3,564mil).

Mae'r PCSPS yn gynllun buddion wedi'u diffinio nad yw'n cael ei ariannu ar gyfer nifer o gyflogwyr lle nad yw'r LAA yn gallu pennu ei chyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Cwblhawyd prisiad llawn gan actiwari ar 31 Mawrth 2017. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservicepensionscheme.org.uk).

Ar gyfer 2016-17, roedd cyfraniadau o £7,826mil yn daladwy gan y cyflogwr i'r PCSPS (2015-16: £8,280mil) ar un o'r pedair cyfradd rhwng 20.0% a 24.5% (2015-16: 20.0% i 24.5%) o'r tâl pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Mae'r cyfraddau cyfrannu yn adlewyrchu buddion wrth eu cronni, nid pan ysgwyddir y costau, ac maent yn adlewyrchu profiad o'r cynllun yn y gorffennol.


Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniadau gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £191mil (2015-16: £195mil) i un neu ragor o ddarparwyr pensiynau cyfranddeiliaid ar banel a benodwyd.

Roedd un person (2015-16: dim) wedi ymddeol yn gynnar ar sail afiechyd. Cyfanswm y rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £5mil.

## Niferoedd staff

### Tabl H: Nifer cyfartalog y bobl a gyflogwyd

| | 2016-17 | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Eraill | | Staff a gyflogwyd yn barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| Wedi'u cyflogi'n uniongyrchol | 1,241 | 111 | 1,352 | 1,363 | 114 | 1,477 |
| Eraill | - | 33 | 33 | - | 104 | 104 |
| Staff wedi'u cyflogi ar brosiectau cyfalaf | 52 | 19 | 71 | 35 | 30 | 65 |
| Cyfanswm | 1,293 | 163 | 1,456 | 1,398 | 248 | 1,646 |



## Amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym yn ceisio denu a chadw gweithlu cynrychiadol sy'n deall anghenion y gwahanol ddarparwyr cymorth cyfreithiol a chleientiaid rydym yn eu gwasanaethu ac rydym yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i wella ein ffordd o ddarparu cymorth cyfreithiol. Mae gan yr LAA ddyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erlid, i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da. Rydym yn sicrhau bod hyn yn cael ei gymhwyso i'r holl swyddogaethau ar draws yr LAA.

Yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil 2016-17, roedd ein staff wedi rhoi sgôr a oedd yn ein rhoi'n ail yn y Gwasanaeth Sifil cyfan o ran tegwch a chynhwysiant. Mae hyn yn ganlyniad yn bennaf i ymrwymiad cryf y staff i amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae mwy na 30 o staff yn gwirfoddoli i fod yn hyrwyddwyr amrywiaeth lleol ac mae eraill yn cydweithio mewn grwpiau ar wahanol bynciau sy'n cynnwys rhywedd, oed, anabledd a chydraddoldeb hiliol. Mae hyrwyddwyr amrywiaeth lleol wedi hybu ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cenedlaethol fel Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a mentrau mwy lleol fel Wythnos Awtistiaeth. Yn ogystal â hyn, mae gennym Uwch Hyrwyddwyr Amrywiaeth sy'n tynnu sylw at faterion penodol ac yn hyrwyddo cydraddoldeb o ran hil, rhywedd, anabledd, oed, gofalwyr, pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, ffydd a chael plentyn/beichiogrwydd.

Roedd ein gwaith allweddol yn ystod 2016-17 yn cynnwys:

- cyflwyno amcanion amrywiaeth i'r holl staff, a groesawyd gan 70% o staff yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil
- hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd a ddarparwyd gan ein Huwch Hyrwyddwr Anabledd
- cymryd rhan yng nghynllun peilot Cymheiriaid Iechyd Meddwl y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- gweithdai cydraddoldeb hiliol i staff yr LAA a gynhaliwyd gan Brosiect Hil y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Mae ein tîm Ymgysylltu a Chynhwysiant wedi ymgynghori â staff ar Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd ar gyfer 2017-2020, gyda set o gamau gweithredu er mwyn parhau â'r canlynol:


- adeiladu gweithle cynhwysol
- cynyddu amrywiaeth
- cynnwys dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth gynllunio a darparu cymorth cyfreithiol.

## Cyflogi pobl anabl

Mae'r LAA wedi mabwysiadu polisïau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder mewn perthynas â chyflogi, hyfforddi, datblygu gyrfa a hyrwyddo pobl sydd ag anabledd. Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Llawlyfr Polisi Anabledd a Gallu y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae ein pobl yn gallu cymryd rhan yn rhaglenni Hyfforddiant Gweithredu Cadarnhaol a datblygu gyrfa y Gwasanaeth Sifil sy'n ceisio cynorthwyo pobl sydd ag anabledd. Yn ystod 2016-17, roedd staff yr LAA yn gallu gofyn am gyngor gan Wasanaeth Cefnogi Addasiadau Rhesymol y Weinyddiaeth Gyfiawnder: o 1 Ebrill 2017 roedd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu gan Dîm Addasu Gweithleoedd y Gwasanaeth Sifil.

## Data absenoldeb oherwydd salwch

Mae nifer cyfartalog y diwrnodau gwaith a gollir (NCDGG) yn cael ei fonitro'n rheolaidd ac adroddir arno'n fisol i'r Bwrdd. Rydym wedi parhau i wella ein ffigur ar gyfer NCDGG ac wedi gwneud gwelliannau sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn ddiwethaf ac ar sail targedau.




### Tabl I: Adrodd ar gynllun digolledu'r Gwasanaeth Sifil a chynlluniau digolledu eraill – pecynnau ymadael

| | 2016-17 | | | 2015-16 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau erail | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael |
| BAND COST Y PECYN YMADAEL | | | | | | |
| < £10,000 | - | 1 | 1 | - | 25 | 25 |
| £10,000 - £25,000 | - | - | - | - | 65 | 65 |
| £25,000 - £50,000 | - | 1 | 1 | - | 80 | 80 |
| £50,000 - £100,000 | - | 1 | 1 | - | 35 | 35 |
| £100,000 - £150,000 | - | - | - | - | 1 | 1 |
| Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math | - | 3 | 3 | - | 206 | 206 |
| Cyfanswm cost yr adnoddau (£000) | - | 141 | 141 | - | 6,747 | 6,747 |

Cytunwyd ar gostau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Digolledu'r Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifyddir yn llawn am gostau ymadael yn y flwyddyn y caiff y pecyn ymadael ei gadarnhau. Lle mae'r LAA wedi cytuno ar ymddeol cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr LAA ac nid gan Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeol ar sail afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tabl.

## Costau ymgyngoriaethau

Y gwariant ar ymgyngoriaethau yn 2016-17 oedd £37mil (2015-16: £34mil).

## Penodiadau nad ydynt ar y gyflogres

Yn ystod y flwyddyn, mae'r LAA wedi adolygu'r trefniadau treth ar gyfer ei holl benodiadau nad ydynt ar y gyflogres. Roedd yn ofynnol i'r holl gontractwyr a adolygwyd ddarparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth o ran treth. Nid oedd unrhyw achosion o benodiadau oddi ar y gyflogres nad ydynt yn cydymffurfio o ran treth ar 31 Mawrth 2017. Mae rhagor o fanylion am benodiadau nad ydynt ar y gyflogres yn yr LAA yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Datgeliadau atebolrwydd seneddol

Mae'r adran hon wedi cael ei harchwilio ac mae'n cynnwys nifer o ddatgeliadau sydd wedi'u seilio ar ofynion yn Managing Public Money i gynhyrchu datganiadau ariannol cywir a theg.

**Colledion a thaliadau arbennig**

Colledion

| | 2016-17 | | 2015-16 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | £000 | Nifer | £000 |
| Wedi'i dileu | 4,229 | 6,963 | 4,217 | 9,265 |
| Colled ddeongliadol | - | - | 1 | 556 |
| Taliadau arbennig | 10 | 453 | 81 | 955 |
| Cyfanswm gwerth y colledion | 4,239 | 7,416 | 4,299 | 10,776 |

Yn unol â Managing Public Money, mae colledion unigol o fwy na £300mil wedi'u datgelu ar wahân.

Yn 2016-17, roedd yr LAA wedi dileu balans dyled darparwr o £633mil wedi i'r ffyrm o gyfreithwyr cymorth cyfreithiol fynd yn fethdalwr (2015-16: balansau tri chyflenwr, £320mil, £347mil a £374mil).

**Colledion dichonol**
Mae tîm atal twyll yr LAA yn cynorthwyo mewn ymchwiliadau i achosion lle mae amheuaeth o dwyll ar ran ffyrmiau darparwyr ar faterion sydd wedi'u cyfeirio i'r heddlu a'u dwyn i sylw Action Fraud a Swyddfa'r Cabinet.

Mae'r LAA yn cymryd camau i orfodi ac adennill symiau a dalwyd ar hawliadau a all fod yn amhriodol. Os bydd ymchwiliad yn dod i'r casgliad bod symiau wedi'u cael yn amhriodol, bydd unrhyw swm na ellir ei adennill yn gallu achosi colled mewn cyfrifon yn y dyfodol.

**Taliadau arbennig**
Ni chafwyd unrhyw daliadau arbennig newydd yn 2016-17. Roedd taliadau gweddilliol o £453mil (2015-16: £955mil) wedi cael eu setlo y flwyddyn hon am gostau cyfreithiol a ysgwyddwyd gan gynigwyr a oedd wedi herio'r tendr cymorth cyfreithiol troseddol cyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi ei wrthdroi ar 28 Ionawr 2016.

**Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol**

**Shaun McNally CBE**
Chief Executive and Accounting Officer
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
11 Gorffennaf 2017

# Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Rwyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Y datganiadau ariannol yw: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newid yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu a nodwyd ynddynt. Rwyf wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol y nodir ei bod wedi cael ei harchwilio.

## Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi golwg cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol y Bwrdd Arferion Archwilio i Archwilwyr.

## Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae cynnal archwiliad yn golygu cael tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd oddi wrth gamddatgan perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesu: a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaed gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol. Yn ogystal â hyn, rwyf yn darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysonderau perthnasol rhyngddi a'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac er mwyn nodi unrhyw wybodaeth y mae'n ymddangos ei bod yn anghywir o'i hanfod ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n anghyson â hi o'i hanfod. Os deuaf i wybod am unrhyw beth sy'n ymddangos ei fod yn gamddatganiad neu anghysonder perthnasol, byddaf yn ystyried y goblygiadau o hynny i'm tystysgrif.

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigon i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob mater perthnasol mae'r gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Barn am y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg cywir a theg ar sefyllfa'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ar 31 Mawrth 2017 ac o'r costau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000  a chyfarwyddiadau a ddyroddwyd o dani gan Drysorlys EM.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a oedd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiad Perfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

## Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y byddaf yn eich hysbysu amdanynt os byddaf o'r farn:

- nad yw cyfrifon cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ddatganiadau sy'n ddigonol i'm harchwiliad wedi dod i law oddi wrth ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol sydd i'w harchwilio yn gyson â'r cofnodion a datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau am y datganiadau ariannol hyn.

**Sir Amyas C E Morse**
**Y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol**
**12 Gorffennaf 2017**

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria
Llundain
SW1W 9SP

# Adroddiadau ariannol



# Datganiadau Ariannol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | 2016-17<br>£000 | 2015-16<br>£000 |
|---|---|---|---|
| Incwm o rent | | (682) | (787) |
| Llog ar ffioedd statudol | | (6,307) | (9,042) |
| Incwm o dan gynlluniau cymorth cyfreithiol | 6 | (188,883) | (190,535) |
| Cyfanswm incwm gweithredu | | (195,872) | (200,364) |
| Costau staff | 3 | 55,280 | 69,204 |
| Gwariant o dan gynlluniau cymorth cyfreithiol | 4 | 1,781,140 | 1,720,411 |
| Dibrisiant a chostau lleihad mewn gwerth | 8 & 9 | 10,069 | 10,227 |
| Gwariant gweithredu arall | 5 | 36,025 | 39,337 |
| Cyfanswm costau gweithredu | | 1,882,514 | 1,839,179 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | | 1,686,642 | 1,638,815 |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | |
| Enillion net ar ôl ailbrisio asedau anniriaethol | | (2,471) | (686) |
| Enillion net ar ôl ailbrisio eiddo, peiriannau a chyfarpar | | (369) | (97) |
| Cyfanswm gwariant cynhwysfawr | | 1,683,802 | 1,638,032 |

Cafwyd yr holl incwm a gwariant o weithrediadau sy’n parhau.

Mae’r nodiadau ar dudalennau 64 i 91 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2017

| | Nodyn | 31 MAWRTH 2017<br>£000 | 31 MAWRTH 2016<br>£000 |
|---|---|---|---|
| ASEDAU ANGHYFREDOL | | | |
| Asedau anniriaethol | 8 | 56,161 | 51,992 |
| Eiddo, peiriannau ac chyfarpar | 9 | 4,247 | 6,282 |
| Cyfanswm asedau anghyfredol | | 60,408 | 58,274 |
| ASEDAU CYFREDOL | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 11 | 135,918 | 133,778 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 12 | 10,894 | 16,192 |
| Cyfanswm asedau cyfredol | | 146,812 | 149,970 |
| Cyfanswm asedau | | 207,220 | 208,244 |
| RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 13 | (196,569) | (241,306) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (626,674) | (592,333) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol | | (823,243) | (833,639) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | (616,023) | (625,395) |
| RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 13 | (571) | (558) |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau | 15 | (2,063) | (1,828) |
| Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol | | (2,634) | (2,386) |
| Asedau llai rhwymedigaethau | | (618,657) | (627,781) |
| ECWITI TRETHDALWYR | | | |
| Cronfa ailbrisio | | 3,165 | 1,391 |
| Cronfa gyffredinol | | (621,822) | (629,172) |
| | | (618,657) | (627,781) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 91 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Llofnodwyd dros ac ar ran yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol

**Shaun McNally CBE**
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu
Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
11 Gorffennaf 2017

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o Lifau Arian Parod
## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| LLIFAU ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU | | | |
| Costau gweithredu net | | (1,686,642) | (1,638,815) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion tybiannol a rhai nad ydynt yn arian parod | | 19,955 | 20,927 |
| Balansau o fewn yr adran a setlwyd drwy Gronfeydd Cyffredinol | | 23,703 | 24,154 |
| Ennill/(colled) ar leihad mewn gwerth, ailbrisio a cholled ar waredu | 5 | 14 | (63) |
| Cynnydd mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | | (2,140) | (22,296) |
| Lleihad mewn masnach a symiau taladwy eraill | | (44,724) | (26,226) |
| Llai symudiadau mewn symiau taladwy yn ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | | 15 | (105) |
| Symudiad mewn darpariaethau | | 34,576 | (2,360) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | (1,655,243) | (1,644,784) |
| LLIFAU ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI | | | |
| Prynu asedau anniriaethol | 7 | (8,442) | (7,631) |
| Prynu eiddo, peiriannau a chyfarpar | 7 | (586) | (724) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | (9,028) | (8,355) |
| LLIFAU ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU ARIANNU | | | |
| Cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: refeniw | | 1,649,805 | 1,655,027 |
| Cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: cyfalaf | | 9,168 | 8,552 |
| Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu | | 1,658,973 | 1,663,579 |
| Lleihad net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn y flwyddyn | | (5,298) | 10,440 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r flwyddyn | | 16,192 | 5,752 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y flwyddyn | 12 | 10,894 | 16,192 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 91 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
## Datganiad o Newid mewn Ecwiti Trethdalwyr
## am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

| | Note | CRONFA AILBRISIO £000 | CRONFA GYFFREDINOL £000 | CYFANSWM £000 |
|---|---|---|---|---|
| Gweddill ar 1 Ebrill 2015 | | 1,292 | (691,035) | (689,743) |
| NEWIDIADAU MEWN ECWITI TRETHDALWYR AM 2015-16 | | | | |
| Cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: refeniw | | – | 1,655,027 | 1,655,027 |
| Cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: cyfalaf | | – | 8,552 | 8,552 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | | – | (1,638,815) | (1,638,815) |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | | |
| Ennill net ar ailbrisio | | 783 | – | 783 |
| ADDASU NAD YW'N ARIAN PAROD | | | | |
| Addasiad o fewn yr adran | | – | 25,623 | 25,623 |
| Ailgodi tybiannol oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 5 | – | 10,572 | 10,572 |
| Ffi archwilio allanol dybiannol | 5 | – | 220 | 220 |
| SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio | | (684) | 684 | – |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2016 | | 1,391 | (629,172) | (627,781) |
| NEWIDIADAU MEWN ECWITI TRETHDALWYR AM 2016-17 | | | | |
| Cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: refeniw | | – | 1,649,805 | 1,649,805 |
| Cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder: cyfalaf | | – | 9,168 | 9,168 |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn | | – | (1,686,642) | (1,686,642) |
| GWARIANT CYNHWYSFAWR ARALL | | | | |
| Ennill net ar ailbrisio | | 2,840 | – | 2,840 |
| ADDASU NAD YW'N ARIAN PAROD | | | | |
| Addasiad o fewn yr adran | | – | 23,912 | 23,912 |
| Ailgodi tybiannol oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 5 | – | 9,841 | 9,841 |
| Ffi archwilio allanol dybiannol | 5 | – | 200 | 200 |
| SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD | | | | |
| Trosglwyddiadau o'r gronfa ailbrisio | | (1,066) | 1,066 | – |
| Gweddill ar 31 Mawrth 2017 | | 3,165 | (621,822) | (618,657) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 64 i 91 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

## Nodyn – 1 Datganiad o bolisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2016 i 2017, o dan y cyfarwyddyd a ddyroddwyd gan Drysorlys EM o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y barnwyd ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (LAA) er mwyn rhoi golwg cywir a theg. Mae'r polisïau penodol a fabwysiadwyd gan yr LAA wedi'u disgrifio isod. Maent wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau y credir eu bod yn berthnasol i'r datganiadau ariannol.

### a) Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u cyflwyno mewn Sterling wedi'i dalgrynnu i'r fil (£000) agosaf oni nodir fel arall. Paratowyd y datganiadau ariannol o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'i addasu i roi cyfrif am ailbrisio rhai asedau a rhwymedigaethau ariannol.

***Dyfarniadau arwyddocaol a ffynonellau amcangyfrif***
Mae'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol yn galw am ddefnyddio dyfarniadau, amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar symiau'r asedau a rhwymedigaethau a gofnodir ar ddiwedd datganiadau ariannol a'r symiau o incwm a gwariant a gofnodwyd yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae'r amcangyfrifon a rhagdybiaethau cysylltiedig sydd wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol yn seiliedig ar ddata sy'n cael eu dal gan yr LAA, profiad hanesyddol a gwahanol ffactorau eraill. Credir bod y rhain yn rhoi sail resymol ar gyfer amcangyfrif gwerthoedd cario asedau a rhwymedigaethau nad ydynt ar gael yn rhwydd o ffynonellau eraill.

Y prif feysydd lle mae rheolwyr yn gwneud amcangyfrifon yw asedau anniriaethol (nodyn 8), masnach a symiau derbyniadwy eraill (nodyn 11) a darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau (nodyn 15).

***Busnes gweithredol***
Mae'r LAA yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a sefydlwyd o dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 i gomisiynu, caffael a thalu am wasanaethau cymorth cyfreithiol oddi wrth ddarparwyr (cyfreithwyr, bargyfreithwyr, cyfryngwyr a'r sector di-elw). Disgwylir y bydd gweithgareddau'r LAA yn cael eu hariannu yn y dyfodol o arian y Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n cael ei ddyrannu drwy bleidlais bob blwyddyn o dan y Ddeddf Dyrannu berthnasol. Mae'r LAA o'r farn y bydd cysyniad y busnes gweithredol yn gymwys tra bydd darpariaethau Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 yn parhau.

## b) Newid mewn polisi cyfrifyddu a datgeliadau

***Newid mewn polisïau cyfrifyddu***
Ni chafwyd unrhyw newid mewn polisïau cyfrifyddu ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.

***Mabwysiadu safonau newydd a diwygiedig***
Nid oes unrhyw safonau newydd neu ddiwygiedig sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol a oedd yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016 sy'n cael effaith sylweddol ar gyfrifon yr LAA.

***Safonau, newidiadau a dehongliadau newydd a ddyroddwyd ond sydd heb fod mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dechrau 1 Ebrill 2016 ac sydd heb eu mabwysiadu'n gynnar***
Nid yw IFRS 9 'Financial Instruments' mewn grym eto ar gyfer adrodd yn y sector cyhoeddus ac ni ddisgwylir y bydd yn cael effaith sylweddol ar gyfrifon yr LAA yn y dyfodols.

## c) Incwm

Mae incwm yr LAA yn cynnwys cyfraniadau gan gleientiaid a ariannwyd, costau y gellir eu hadennill oddi wrth gleientiaid a ariannwyd neu eraill, yn cynnwys ffioedd statudol, adennill iawndal ac incwm o weinyddu. Mae incwm yn cael ei gydnabod ar y pwynt lle mae'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig ag ariannu achos yn dod i'r LAA

***Costau y gellir eu hadennill***
Lle mae'r dyfarndal i'r cleient a ariannwyd yn cael ei setlo cyn gwrandawiad llys, caiff yr incwm ei gydnabod pan yw'n ddyledus i'r LAA, wrth drosglwyddo symiau'r setliad yn ffisegol yn uniongyrchol rhwng y ddau barti yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

***Adennill o iawndal a ffioedd statudol***
Lle gellir adennill costau a ysgwyddwyd wrth ariannu achos oddi wrth gleientiaid a ariannwyd neu eraill, cyfrifyddir y symiau fel incwm ar ôl asesu eu bod yn ddyledus i'r LAA. Gellir adennill y symiau o gostau a ddyfarnwyd ac iawndal, lle bo'n berthnasol.

***Prawf Moddion Llys y Goron***
Ar gyfer cynllun Prawf Moddion Llys y Goron (CCMT), mae incwm yn cael ei gydnabod pan fydd y dyfarniad yn hysbys a phan fydd y cyfrifiad terfynol o gyfraniad cyfan yr ymgeisydd wedi cael ei asesu.

## d) Gwariant

Mae gwariant yn cynnwys symiau sy'n daladwy, yn cynnwys yr amcangyfrif o werth y gwaith a gwblhawyd gan ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol nad yw wedi'i filio eto, am wasanaethau a ddarparwyd i gleientiaid a ariannwyd, ad-dalu cyfraniadau i gleientiaid a ariannwyd, costau a ddyfarnwyd i bartïon eraill a chostau eraill sy'n gysylltiedig â darparu cyngor a chynhorthwy cyfreithiol. Mae costau eraill yn cynnwys cost staff (yn cynnwys dyraniad o gostau pensiwn) a'r costau gweinyddol am redeg yr LAA.

## e) Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yw balansau banc sy'n cael eu dal gyda banciau masnachol yn cynnwys y rheini sy'n cael eu gweinyddu drwy Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth (GBS), gydag adegau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai.

## f) Darpariaethau

Darpariaethau yw rhwymedigaethau sy'n ansicr o ran swm neu amseriad. Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan yr LAA rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol, o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, y mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd ar eu cyfer i setlo'r rhwymedigaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy ar eu cyfer o swm y rhwymedigaeth. Mae darpariaethau'n adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth.  Lle mae'r effaith yn sylweddol, mae'r amcangyfrif o'r llifau arian parod yn cael ei ddisgowntio. Mae effaith disgowntio yn cael ei chodi'n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

***Symiau sy'n ddyledus ar achosion a ariannwyd***
Mae'r LAA yn cydnabod ei hatebolrwydd am dalu am waith sydd wedi'i gwblhau ar y dyddiad adrodd ond heb gael ei filio eto. Mae amcangyfrifon ar gyfer pob cynllun cymorth cyfreithiol, yn cynnwys Cynrychiolaeth Sifil, Help Cyfreithiol Sifil, Trosedd Uwch a Throsedd Is, yn cael eu gwneud gan ddefnyddio data sydd ar gael a thechnegau modelu ystadegol. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan reolwyr wrth wneud yr amcangyfrifon hyn wedi'u disgrifio yn y nodyn ar bennu a rheoli risg ariannol (nodyn 10) i'r datganiadau ariannol hyn.

***Darpariaeth ar gyfer symiau sy'n ddyledus mewn perthynas ag achosion a ariannwyd yn breifat (Cronfeydd Canolog)***
O dan delerau Deddf Erlyn Troseddau 1985, mewn amgylchiadau cyfyngedig mae diffynyddion a ryddfarnwyd sydd wedi gwneud cais am gymorth cyfreithiol ac wedi'u cael yn anghymwys yn gallu cael gorchymyn gan Lys y Goron i adennill eu costau. Mae'r LAA yn amcangyfrif gwerth costau sydd heb eu bilio er mwyn cael y swm a ddatgelwyd fel darpariaeth yn y datganiadau ariannol. Mae'r swm yn amcangyfrif o'r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddyddiad diwedd y cyfnod adrodd.

***Dadfeiliadau mewn eiddo lesddaliadol***
Gwneir darpariaethau ar gyfer amcangyfrifon o gostau dadfeilio ar adeiladau lesddaliadol. Mae'r ddarpariaeth wedi'i hamcangyfrif drwy gyfeirio at gyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y les berthnasol.

***Costau cyfreithiol***
Gwneir darpariaethau ar gyfer costau cyfreithiol lle mae'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau er mwyn setlo rhwymedigaeth bresennol.

### g) Lesoedd gweithredu

Codir taliadau rhent ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y les wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae'r LAA yn cyfrifyddu cymhellion lesoedd (cyfnodau heb rent) dros gyfnod y les.

### h) Offerynnau ariannol

***Asedau ariannol***
Asedau ariannol yr LAA yw arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo a masnach a symiau derbyniadwy eraill. Mae symiau derbyniadwy'r LAA yn asedau ariannol anneilliannol gyda thaliadau penodedig neu derfynadwy nad ydynt yn cael eu rhestru ar unrhyw farchnad. Nid yw'r LAA yn bwriadu masnachu'r symiau derbyniadwy hyn, sy'n cynnwys symiau sy'n ddyledus oddi wrth gyflenwyr cymorth cyfreithiol a chleientiaid a ariannwyd.

***Cydnabod cychwynnol a mesur***
Mae symiau derbyniadwy yn cael eu cydnabod yn gyntaf ar eu swm gros wedi'i addasu i ystyried gwerth amser yr arian dros y cyfnod y disgwylir ei gasglu, wedi'i seilio ar gyfraddau disgowntio a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Ar ôl eu cydnabod yn gyntaf, mae'r asedau hyn yn cael eu cario ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol, llai unrhyw leihad mewn gwerth ac addasiad gwerth teg pellach. Bydd unrhyw log sy'n dderbyniadwy neu golled sy'n codi ar leihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Datgelir yr holl symiau derbyniadwy'n rhai dyledus o fewn un flwyddyn. Fodd bynnag, yn achos dyledion ar ffioedd statudol, gellir gohirio'r camau gorfodi i adennill y ddyled. Gall gymryd mwy nag un flwyddyn i gael ad-daliad o ddyledion a ohiriwyd.

***Datgydnabod***

Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn cael eu datgydnabod pan fydd yr hawliau i gael llifau arian parod o'r asedau wedi dod i ben.

**Rhwymedigaethau ariannol**

***Cydnabod cychwynnol a mesur***

Rhwymedigaethau ariannol yr LAA yw masnach a symiau taladwy eraill. Nid yw'r rhain yn cael eu hailbrisio ar ôl eu cydnabod yn gyntaf gan eu bod yn offerynnau syml ag adegau aeddfedu tymor byr. Nid oes pŵer gan yr LAA i gymryd arian ar fenthyg.

***Datgydnabod***

Bydd rhwymedigaeth ariannol yn cael ei datgydnabod pan fydd y rhwymedigaeth o dan y rhwymedigaeth ariannol wedi cael ei chyflawni, ei dileu neu wedi dod i ben.

**Gwerth teg offerynnau ariannol**

Pennir gwerth teg offerynnau ariannol yr LAA drwy ddefnyddio technegau prisio priodol. Ymysg y technegau y gellir eu defnyddio y mae dadansoddi llifau arian parod wedi'u disgowntio neu fodelau prisio eraill..

Darparwyd dadansoddiad o werthoedd teg yr offerynnau ariannol a rhagor o fanylion am y ffordd o'u mesur yn y nodyn ar werthoedd teg (nodyn 14) i'r datganiadau ariannol hyn.

***Gwrthbwyso offerynnau ariannol***

Mae asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwyso a'r swm net yn cael ei gofnodi yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol dim ond os oes hawl gyfreithiol y gellir ei gorfodi ar y pryd i wrthbwyso'r symiau sydd wedi'u cydnabod a bod bwriad i setlo ar sail net.

**i) Lleihad yng ngwerth asedau ariannol**

Gwneir asesiad i ganfod a oes tystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer yr holl asedau ariannol neu grwpiau o asedau ariannol ar ddyddiad y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Gellir asesu asedau unigol (lleihad unigol) neu bortffolio o asedau (lleihad ar y cyd).

Gwneir asesiad o leihad ar y cyd o asedau ariannol sydd â nodweddion risg tebyg. Ar gyfer yr asedau hyn, defnyddir profiad blaenorol yr LAA o golledion ym mhob portffolio i amcangyfrif graddau'r lleihad yng ngwerth y dosbarth hwnnw o asedau. Lle gwneir asesiad o'r fath, gwneir darpariaethau ar gyfer lleihad mewn gwerth i leihau gwerth cario'r asedau ariannol yn unol â hynny. Mae rhagor o fanylion am y model prisio a ddefnyddiwyd i wneud yr amcangyfrif hwn ac am y lleihad gwirioneddol mewn gwerth yn erbyn symiau derbyniadwy'r LAA  yn y nodyn ar bennu a rheoli risg ariannol (nodyn 10) i'r datganiadau ariannol hyn.

Ar gyfer lleihad unigol, y prif ddigwyddiad colli yw un neu ragor o daliadau a fethwyd, er y gellir ystyried digwyddiadau colli eraill hefyd, yn cynnwys trefniadau sydd ar waith i dalu llai na'r taliadau contractiol, twyll a methdalu neu arwyddion eraill o drafferthion ariannol.

Lle cafwyd tystiolaeth wrthrychol o leihad yng ngwerth benthyciadau a symiau derbyniadwy eraill, gwneir darpariaethau ar gyfer lleihad mewn gwerth i leihau gwerth cario'r asedau ariannol i werth teg yr amcangyfrif o lifau arian parod yn y dyfodol.

## j) Cyfrifyddu Treth ar Werth

Codir Treth Ar Werth (TAW) na ellir ei hadennill ar y categori gwariant perthnasol neu, os yw'n briodol, caiff ei chyfalafu gydag ychwanegiadau i asedau anghyfredol. Fel arall, mae incwm a gwariant wedi'u dangos heb gynnwys TAW.

## k) Asedau trydydd parti

***Cyfrifon cadw ar gyfer cleientiaid a ariannwyd***

Mae dyfarniadau o iawndal i gleientiaid a ariannwyd yn daladwy yn gyntaf i'r LAA. Bydd yr LAA yn rhoi'r arian hwn mewn cyfrif cadw nes bydd costau terfynol yr achos wedi'u cyfrifo, pan fydd unrhyw arian sydd dros ben o gyfraniadau ac iawndal yn cael ei dalu i'r cleient a ariannwyd. Cyfrifyddir yr arian hwn fel asedau sy'n cael eu dal ar ran trydydd partïon ac felly nid ydynt wedi'u cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Bydd dyfarndaliadau o iawndal a dalwyd i'r LAA yn ennill llog ar ôl cyfnod cymhwyso.

***Prawf Moddion Llys y Goron***

Gall cyfraniadau fod yn daladwy i'r LAA tuag at gost achosion yn Llys y Goron yn yr achosion hynny a oedd wedi dod o dan brawf moddion. Bydd yr LAA yn rhoi'r arian hwn mewn cyfrif cadw ac yn ei gyfrifyddu fel asedau sy'n cael eu dal ar ran trydydd partïon, felly nid ydynt wedi'u cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Ar ôl rhoi'r dyfarniad a phennu'r costau terfynol, os cafwyd yr ymgeisydd yn euog, bydd gwerth yr arian hyd at y terfyn cost yn ddyledus i'r LAA. Os cafwyd yr ymgeisydd yn ddi-euog, bydd cyfraniadau a dalwyd i'r LAA yn cael eu had-dalu gan gynnwys llog a gyfrifwyd ar 2% y flwyddyn o'r dyddiad talu.

Mae'r symudiadau mewn arian trydydd parti wedi'u cofnodi yn y nodyn ar asedau trydydd parti (nodyn 20) i'r datganiadau ariannol hyn.

## l) Buddion cyflogeion

Mae'r LAA yn cronni ar gyfer cost ddisgwyliedig hawliau ei chyflogeion i wyliau blynyddol yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IAS) 19 'Employee Benefits'. Mae'r LAA yn amcangyfrif y croniad hwn drwy gyfrifo gwerth cyfartalog gwyliau sydd heb eu cymryd ar draws pob band cyflog. Defnyddir hyn wedyn i allosod y cyfanswm.

## m) Cronfa gyffredinol

***Cyllid cyflenwi***

Mae cyllid cyflenwi a gafwyd oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael ei gredydu i'r gronfa gyffredinol yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr ar ôl cael y cyllid. Mae'r LAA yn cael cyllid cyflenwi oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gyfnodol drwy gydol y flwyddyn a chaiff ei gyfrifyddu ar sail arian parod.

***Addasu o fewn yr adran***

Mae addasiadau o fewn yr adran yn ymwneud â'r setlo rhwng yr LAA a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar i) trosglwyddo eiddo, peiriannau a chyfarpar a ii) trafodion prynu a gwerthu rhwng cwmnïau drwy'r gronfa gyffredinol.

## n) Rhwymedigaethau ac asedau digwyddiadol

Datgelir rhwymedigaeth ddigwyddiadol pan fydd y posibilrwydd o dalu'n llai na thebygol, ond yn fwy nag annhebygol iawn. Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37 'Provisions, Contingent Liabilities and Contingent Assets', mae'r LAA yn datgelu, i ddibenion adrodd ac atebolrwydd Seneddol, rwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol, lle mae'n annhebygol iawn y bydd budd economaidd yn cael ei drosglwyddo, yn unol â'r gofynion yn Managing Public Money.

Mae ased digwyddiadol yn ased dichonol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol ac y bydd ei bresenoldeb yn cael ei gadarnhau dim ond os bydd neu na fydd un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr nad ydynt o dan reolaeth lwyr yr LAA yn cael eu gwireddu yn y dyfodol. Datgelir ased digwyddiadol lle mae mewnlif o fuddion economaidd yn debygol.

## o) Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events after the Reporting Period', ystyrir digwyddiadau hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu hawdurdodi i'w cyhoeddi. Mae hyn wedi'i ddehongli fel dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

**p) Asedau sy'n cael eu hadeiladu**

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu prisio ar gost hanesyddol o fewn eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac nid ydynt yn cael eu dibrisio na'u hamorteiddio. Bydd ased yn peidio â chael ei ddynodi'n ased sy'n cael ei adeiladu pan fydd yn barod i'w ddefnyddio. Wedyn bydd ei werth cario yn cael ei dynnu o asedau sy'n cael eu hadeiladu a'i drosglwyddo i'r categori ased priodol. Wedyn codir am ddibrisiant ac amorteiddio ar yr ased yn unol â'r polisi cyfrifyddu sydd wedi'i ddatgan.

Caiff gwariant ei gyfalafu lle gellir ei briodoli'n uniongyrchol i roi ased mewn cyflwr gweithio, fel costau contractwr allanol a chostau cyflogeion perthnasol.

**q) Asedau anniriaethol**

Asedau anniriaethol yw meddalwedd cyfrifiadur a ddatblygwyd yn fewnol (yn cynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu)  a thrwyddedau meddalwedd a brynwyd.

Mae costau datblygu y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gynllunio a rhoi prawf ar gynhyrchion meddalwedd unigryw ac adnabyddadwy, fel costau contractwr allanol a chostau cyflogeion perthnasol, yn cael eu cydnabod yn asedau anniriaethol ar ôl bodloni'r meini prawf ar gyfer eu cydnabod.

Mae'r LAA yn cymhwyso trothwy cyfalafu o £10,000 at asedau anniriaethol.

Mae asedau anniriaethol, yn cynnwys asedau sy'n cael eu hadeiladu, yn cael eu hailddatgan ar eu gwerth teg yn ôl y defnydd presennol ohonynt bob blwyddyn drwy fynegrifo hyd ddiwedd y flwyddyn drwy ddefnyddio Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr (PPI) ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

**r) Eiddo, peiriannau a chyfarpar**

Mae asedau eiddo, peiriannau a chyfarpar sy'n costio mwy na'r trothwy cyfalafu o £10,000 yn cael eu trin fel asedau cyfalaf. Lle mae eitem yn costio llai na'r trothwy cyfalafu ond yn rhan o ased neu grŵp o asedau, y mae cyfanswm ei werth yn fwy na'r lefel cyfalafu, caiff yr eitem ei thrin fel ased cyfalaf.

Mae eiddo, peiriannau a chyfarpar yn cael eu hailddatgan ar eu gwerth teg bob blwyddyn drwy fynegrifo hyd ddiwedd y flwyddyn drwy ddefnyddio Mynegeion Prisiau Cynhyrchwyr (PPI) ar gyfer Cyfrifyddu Costau Cyfredol, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

### s) Dibrisiant ac amorteiddio

Heblaw ar gyfer asedau sy’n cael eu hadeiladu, darperir dibrisiant neu amorteiddio ar yr holl asedau anghyfredol ar sail llinell syth er mwyn dileu cost asedau dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Gosodiadau a ffitiadau | 5 mlynedd |
| Dodrefn a chyfarpar | 3 i 5 mlynedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 5 mlynedd |
| Meddalwedd cyfrifiadur | 3 i 15 mlynedd |

### t) Lleihad yng ngwerth asedau anghyfredol

Ar bob dyddiad adrodd, mae’r LAA yn adolygu gwerthoedd cario ei heiddo, peiriannau a chyfarpar a’i hasedau anniriaethol i benderfynu a oes unrhyw arwydd o leihad yng ngwerth yr asedau hynny. Os oes unrhyw arwydd o’r fath, gwneir amcangyfrif o werth teg yr ased er mwyn pennu graddau’r lleihad mewn gwerth.

Mae lleihad mewn gwerth, sy’n adlewyrchu lleihad parhaol yng ngwerth ased o ganlyniad i ddefnydd clir o fudd economaidd neu botensial gwasanaeth, yn cael ei godi’n uniongyrchol ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, a bydd unrhyw weddill wrth gefn ar ôl ailbrisio yn cael ei ryddhau i’r gronfa gyffredinol.

Pan fydd swm cario ased yn lleihau (heblaw o ganlyniad i leihad parhaol), mae’r lleihad yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio i’r graddau y mae gweddill yn bod mewn perthynas â’r ased hwnnw. Mae lleihad sy’n fwy na’r gwarged a ailbrisiwyd yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Bydd unrhyw wrthdroi ar dâl am leihad mewn gwerth yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i’r graddau bod y tâl gwreiddiol, wedi’i addasu ar gyfer dibrisiant wedyn, wedi’i gydnabod yno cynt. Bydd y swm sy’n weddill yn cael ei gydnabod yn y gronfa ailbrisio.

### u) Ailbrisio

Pan fydd swm cario ased yn cynyddu o ganlyniad i ailbrisio, bydd y swm yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr i’r graddau ei fod yn gwrthdroi lleihad ar ôl ailbrisio’r un ased a oedd wedi’i gydnabod yno cynt. Bydd unrhyw gynnydd sy’n weddill yn cael ei gredydu’n uniongyrchol i’r gronfa ailbrisio yn y Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Bydd unrhyw ddibrisiant a gronnwyd ar ddyddiad yr ailbrisio yn cael ei ddileu yn erbyn swm cario gros yr ased. Caiff y swm net ei ailddatgan ar swm yr ased ar ôl ei ailbrisio.

Mae'r elfen a ailbrisiwyd, sef y gwahaniaeth rhwng dibrisiant seiliedig ar yr ailbrisiad o swm cario'r ased a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr a dibrisiant seiliedig ar gost wreiddiol yr ased, yn cael ei throsglwyddo o'r gronfa ailbrisio i'r gronfa gyffredinol bob blwyddyn.

**v) Ailgodi taliadau tybiannol**

***Ailgodi taliadau tybiannol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder***
Mae'r tâl tybiannol a ailgodwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynrychioli'r defnydd o wasanaethau corfforaethol gan yr LAA.

***Ffi archwilio dybiannol***
Mae costau'r archwiliad a gwblhawyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wedi'u cydnabod fel taliad nad yw'n arian parod.

**w) Llog derbyniadwy ar ffioedd statudol**

O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, a Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, lle mae cleientiaid a ariannwyd wedi adennill neu gadw eiddo yn hytrach na chael iawndal, gellir sicrhau costau adferadwy drwy osod arwystl ar yr eiddo. O dan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol 2000 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Diwygio) 2005  a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion sy'n dwyn llog lle bydd llog yn ddyledus ar y prif falans dyledus ar gyfradd o 8.0% y flwyddyn.

**x) Pensiynau**

***Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil***
Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) yn gynllun buddion wedi'u diffinio sydd heb ei ariannu lle nad yw'r LAA yn gallu adnabod ei chyfran hi o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.  Yn unol â FReM, mae'r LAA yn rhoi cyfrif am y rhain fel cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. Mae'r LAA yn cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio fel traul yn y flwyddyn y maent yn cael eu hysgwyddo, ac mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol wedi'i chyfyngu i'r swm y mae'n cytuno i'w gyfrannu i'r gronfa.

**y) Adrodd ar segmentau**

Rydym yn pennu segmentau gweithredu addas yn unol ag IFRS 8 'Operating  Segments' ar sail y wybodaeth a gyflwynir ar gyfer gwneud penderfyniadau i Fwrdd yr LAA.

# Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol (parhad) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

## Nodyn – 2 Dadansoddi ar sail segmentau

Mae'r LAA yn rhannu'r costau gweithredu net yn dri segment: y Gronfa Cymorth Cyfreithiol, Gweinyddu a Chronfeydd Canolog, ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol ac adrodd i Fwrdd yr LAA.

Mae'r segment Gweinyddu yn adlewyrchu'r gost o redeg yr LAA.

Mae'r Gronfa Cymorth Cyfreithiol wedi'i his-rannu'n Help Cyfreithiol, Cynrychiolaeth Sifil, Trosedd Is, a Throsedd Uwch.

- Help Cyfreithiol yw cymorth cyfreithiol mewn perthynas â chyngor a chynhorthwy a ddarperir ar faterion cyfreithiol.
- Cynrychiolaeth Sifil yw cymorth cyfreithiol sy'n ymwneud â chynrychiolaeth gan fargyfreithwyr a chyfreithwyr mewn achosion sifil a allai fynd i'r llys.
- Mae Trosedd Is yn cwmpasu cynrychiolaeth gyfreithiol i'r rheini sydd wedi'u cyhuddo o droseddau mewn gorsafoedd heddlu ac mewn Llysoedd Ynadon.
- Mae Trosedd Uwch yn cwmpasu cynrychiolaeth yn Llys y Goron, yn y Llys Apêl a'r Goruchaf Lys.

Cronfeydd Canolog yw'r gwariant ar orchmynion a wneir i ryddfarnu diffynyddion sydd wedi ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol yn breifat.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y costau gweithredu net yn ôl segment am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CRONFA | | |
| Help Cyfreithiol | 92,656 | 95,143 |
| Cynrychiolaeth Sifil | 538,456 | 518,580 |
| Trosedd Is | 278,786 | 282,151 |
| Trosedd Uwch | 633,718 | 582,383 |
| CRONFEYDD CANOLOG | 47,985 | 48,059 |
| GWEINYDDU | 95,041 | 112,499 |
| Costau gweithredu net am y flwyddyn | 1,686,642 | 1,638,815 |

## Nodyn – 3 Costau staff

| | 2016-17 | 2016-17 | 2016-17 | 2015-16 | 2015-16 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau | 39,067 | 4,003 | 43,070 | 42,964 | 7,579 | 50,543 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,934 | 231 | 4,165 | 3,233 | 193 | 3,426 |
| Costau pensiwn eraill | 7,554 | 463 | 8,017 | 8,030 | 445 | 8,475 |
| | 50,555 | 4,697 | 55,252 | 54,227 | 8,217 | 62,444 |
| Llai symiau a adenillwyd mewn perthynas â secondio allan | (142) | – | (142) | (333) | – | (333) |
| Diswyddo* | 141 | – | 141 | 7,063 | – | 7,063 |
| | 50,554 | 4,697 | 55,251 | 60,957 | 8,217 | 69,174 |
| Aelodau Anweithredol y Bwrdd (ffioedd a buddion) | 29 | – | 29 | 30 | – | 30 |
| | 29 | – | 29 | 30 | – | 30 |
| Cyfanswm | 50,583 | 4,697 | 55,280 | 60,987 | 8,217 | 69,204 |

* *Mae costau diswyddo a ddatgelwyd yn y tabl uchod yn ymwneud â thri (2015-16: 206) aelod staff cyfwerth ag amser llawn*

## Nodyn – 4 Gwariant o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CYNRYCHIOLAETH SIFIL | | |
| Ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cwnselwyr ac alldaliadau (darparwyd yn ystod y flwyddyn - nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn | 697,137 | 682,622 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiadau gwaith sy'n mynd rhagddo | (5,975) | 6,027 |
| Ad-dalu cyfraniadau | 793 | 422 |
| Costau partïon llwyddiannus na chawsant gymorth | 1,091 | 1,077 |
| Lleihad yng ngwerth dyledion a dileu dyledion | 7,094 | (11,514) |
| Disgowntio dyledion | 291 | 9,372 |
| | 700,431 | 688,006 |
| HELP CYFREITHIOL SIFIL | | |
| Ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cwnselwyr ac alldaliadau (darparwyd yn ystod y flwyddyn - nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn | 97,910 | 94,482 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiadau gwaith sy'n mynd rhagddo | (8,548) | (6,677) |
| Gwasanaethau uniongyrchol | 5,603 | 5,489 |
| Lleihad yng ngwerth dyledion a dileu dyledion | (2,313) | 1,258 |
| Disgowntio dyledion | (326) | 272 |
| | 92,326 | 94,824 |
| TROSEDD IS | | |
| Ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cwnselwyr ac alldaliadau (darparwyd yn ystod y flwyddyn - nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn | 267,808 | 269,835 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiadau gwaith sy'n mynd rhagddo | 7,072 | 2,371 |
| Gwasanaethau uniongyrchol a gwasanaeth yr amddiffynnydd cyhoeddus | 3,572 | 4,003 |
| Lleihad yng ngwerth dyledion a dileu dyledion | (1,108) | 642 |
| Disgowntio dyledion | (156) | 137 |
| | 277,188 | 276,988 |
| TROSEDD UWCH | | |
| Ffioedd cyfreithwyr, ffioedd cwnselwyr ac alldaliadau (darparwyd yn ystod y flwyddyn - nodyn 15) | | |
| Biliau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn | 612,678 | 612,164 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiadau gwaith sy'n mynd rhagddo | 39,456 | (4,106) |
| Gwasanaeth yr amddiffynnydd cyhoeddus | 272 | - |
| Lleihad yng ngwerth dyledion a dileu dyledion | 7,776 | (1,030) |
| Disgowntio dyledion | 3,029 | 5,506 |
| | 663,211 | 612,534 |
| CRONFEYDD CANOLOG | | |
| Gwariant cronfeydd canolog (darparwyd yn ystod y flwyddyn - nodyn 15) | | |
| Gorchmynion costau'r amddiffyniad a ddyfarnwyd yn Llys y Goron ac mewn llysoedd ynadon | 34,213 | 38,150 |
| Darpariaeth ar gyfer symudiadau gwaith sy'n mynd rhagddo | 2,861 | (1,029) |
| Cyfieithwyr ac eraill | 10,910 | 10,938 |
| | 47,984 | 48,059 |
| Cyfanswm | 1,781,140 | 1,720,411 |

## Nodyn – 5 Gwariant gweithredu arall

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Safleoedd a chostau cysylltiedig | 3,264 | 3,107 |
| Costau rhedeg swyddfeydd, TG a gwasanaethau | 14,732 | 13,489 |
| Costau cysylltiedig â staff ac aelodau pwyllgorau | 1,346 | 1,361 |
| Lesoedd gweithredu | 2,666 | 2,836 |
| Costau cyfreithiol a phroffesiynol | 1,346 | 4,059 |
| Cytundebau lefel gwasanaeth â GLlTEM | 172 | 820 |
| Costau gweinyddu eraill | 2,171 | 1,953 |
| | 25,697 | 27,625 |
| COSTAU NAD YDYNT YN ARIAN PAROD | | |
| Ailbrisio a lleihad yng ngwerth asedau anniriaethol | - | (33) |
| Ailbrisio a lleihad yng ngwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar | - | (30) |
| Colled ar waredu asedau | 14 | - |
| Symudiad mewn darpariaeth ar gyfer costau cyfreithiol a dadfeilio | 428 | 1,101 |
| Ailgodi tâl tybiannol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder | 9,841 | 10,572 |
| Ffi archwilio allanol dybiannol | 200 | 220 |
| Amorteiddio lesoedd gweithredu | (155) | (92) |
| Costau benthyca ar gyfer darpariaethau | - | (26) |
| | 10,328 | 11,712 |
| Cyfanswm | 36,025 | 39,337 |

## Nodyn – 6 Incwm o dan y cynlluniau cymorth cyfreithiol

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| CYNRYCHIOLAETH SIFIL | | |
| Cyfraniadau gan gleientiaid a ariannwyd | 9,069 | 12,591 |
| Costau y gellir eu hadennill | 134,487 | 130,783 |
| Symiau a adenillwyd o iawndal a ffioedd statudol | 12,221 | 17,010 |
| | 155,777 | 160,384 |
| ACHOSION TROSEDDOL | | |
| Symiau a adenillwyd yn Llys y Goron | 33,099 | 28,935 |
| Adennill costau amddiffyn | 7 | 1,216 |
| | 33,106 | 30,151 |
| Cyfanswm | 188,883 | 190,535 |

## Nodyn – 7 Cysoni Nodyn 8 asedau anniriaethol a Nodyn 9 eiddo, peiriannau a chyfarpar â'r Datganiad o Lifau Arian Parod

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ychwanegiadau asedau anniriaethol (nodyn 8) | 8,582 | 7,828 |
| Cynnydd mewn croniadau cyfalaf | (140) | (197) |
| **Cyfanswm asedau anniriaethol a brynwyd yn ôl y Datganiad o Lifau Arian Parod** | **8,442** | **7,631** |
| Ychwanegiadau eiddo, peiriannau a chyfarpar (nodyn 9) | 586 | 724 |
| **Cyfanswm yr eiddo, peiriannau a chyfarpar a brynwyd yn ôl y Datganiad o Lifau Arian Parod** | **586** | **724** |

## Nodyn – 8 Asedau anniriaethol

| | ASEDAU SY'N CAEL EU HADEILADU | MEDDALWEDD CYFRIFIADUR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2016 | 11,235 | 83,928 | 95,163 |
| Ailddosbarthu | (1,492) | 1,523 | 31 |
| Ychwanegiadau | 8,528 | 54 | 8,582 |
| Gwaredu | - | (76) | (76) |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | 209 | - | 209 |
| Ailbrisio | - | 4,908 | 4,908 |
| Cost ar 31 Mawrth 2017 | 18,480 | 90,337 | 108,817 |
| | | | |
| Amorteiddio ar 1 Ebrill 2016 | - | 43,171 | 43,171 |
| Ailddosbarthu | - | - | - |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | - | 7,110 | 7,110 |
| Gwaredu | - | (62) | (62) |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | - | - | - |
| Ailbrisio | - | 2,437 | 2,437 |
| Amorteiddio ar 31 Mawrth 2017 | - | 52,656 | 52,656 |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2017 | 18,480 | 37,681 | 56,161 |

Mae cyfanswm yr ychwanegiadau'n cynnwys £1,137mil (2015-16: £997mil) o groniadau cyfalaf ar 31 Mawrth 2017.

Mae balans y gronfa ailbrisio o £3,165mil yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr yn cynnwys £2,521mil (2015-16: £1,116mil) sy'n gysylltiedig ag asedau anniriaethol ar 31 Mawrth 2017.

Yr LAA yw perchennog yr holl asedau anniriaethol

.

| | ASEDAU SY'N CAEL EU HADEILADU | MEDDALWEDD CYFRIFIADUR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2015 | 7,303 | 77,290 | 84,593 |
| Ailddosbarthu | (5,105) | 5,156 | 51 |
| Ychwanegiadau | 7,568 | 260 | 7,828 |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | 1,469 | - | 1,469 |
| Ailbrisio | - | 1,222 | 1,222 |
| Cost at 31 March 2016 | 11,235 | 83,928 | 95,163 |
| Amortisation at 1 April 2015 | - | 35,372 | 35,372 |
| Ailddosbarthu | - | - | - |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | - | 7,296 | 7,296 |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | - | - | - |
| Ailbrisio | - | 503 | 503 |
| Amorteiddio ar 31 Mawrth 2016 | - | 43,171 | 43,171 |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2016 | 11,235 | 40,757 | 51,992 |

## Nodyn – 9 Eiddo, peiriannau a chyfarpar

| | ASEDAU SY'N CAEL EU HADEILADU | DODREFN | DODREFN A CHYFARPAR | TECHNOLEG GWYBODAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2016 | 748 | - | 208 | 17,298 | 18,254 |
| Ailddosbarthu | (788) | - | - | 757 | (31) |
| Ychwanegiadau | 242 | - | - | 344 | 586 |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | - | - | 31 | - | 31 |
| Ailbrisio | - | - | - | 1,058 | 1,058 |
| Cost ar 31 Mawrth 2017 | 202 | - | 239 | 19,457 | 19,898 |
| | | | | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2016 | - | - | 208 | 11,764 | 11,972 |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - | - |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | - | - | - | 2,959 | 2,959 |
| Trosglwyddo o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder | - | - | 31 | - | 31 |
| Ailbrisio | - | - | - | 689 | 689 |
| Dibrisiant ar 31 Mawrth 2017 | - | - | 239 | 15,412 | 15,651 |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2017 | 202 | - | - | 4,045 | 4,247 |

Mae balans y gronfa ailbrisio o £3,165mil yn y Datganiad o Ecwiti Trethdalwyr yn cynnwys £644mil (2015-16: £275mil) sy'n gysylltiedig ag eiddo, peiriannau a chyfarpar ar 31 Mawrth 2017.

Yr LAA yw perchennog yr holl eiddo, peiriannau a chyfarpar.

| | ASEDAU SY'N CAEL EU HADEILADU | DODREFN | DODREFN A CHYFARPAR | TECHNOLEG GWYBODAETH | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2015 | 285 | 3,569 | - | 16,821 | 20,675 |
| Ailddosbarthu | (230) | - | 208 | 185 | 163 |
| Ychwanegiadau | 693 | - | - | 31 | 724 |
| Gwarediadau | - | (3,569) | - | - | (3,569) |
| Ailbrisio | - | - | - | 261 | 261 |
| Cost ar 31 Mawrth 2016 | 748 | - | 208 | 17,298 | 18,254 |
| | | | | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2015 | - | 3,543 | - | 8,719 | 12,262 |
| Ailddosbarthu | - | - | 208 | 6 | 214 |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | - | 26 | - | 2,905 | 2,931 |
| Gwarediadau | - | (3,569) | - | - | (3,569) |
| Ailbrisio | - | - | - | 134 | 134 |
| Dibrisiant ar 31 Mawrth 2016 | - | - | 208 | 11,764 | 11,972 |
| Llyfrwerth net ar 31 Mawrth 2016 | 748 | - | - | 5,534 | 6,282 |

## Nodyn – 10 Pennu a rheoli risg ariannol

Mae proses rheoli risg ariannol yr LAA yn ceisio rhoi'r gallu i bennu'r risgiau allweddol i'r LAA yn gynnar a'u gwerthuso a'u rheoli'n effeithiol. Sefydlwyd systemau i adolygu ac adlewyrchu newidiadau yn y farchnad cymorth cyfreithiol ac yng ngweithgareddau'r LAA.

**Risg cyfraddau llog**

Nid yw'r LAA yn agored i risg sylweddol oddi wrth gyfraddau llog. Ar 31 Mawrth 2017, roedd £77.2 miliwn (2015-16: £79.4 miliwn) o ddyledion o ffioedd statudol yn ddyledus. Roedd prifsymiau'r dyledion yn dwyn llog ar gyfradd sefydlog.

Mae arian y mae'r LAA yn ei dderbyn ar ran cleientiaid a ariannwyd yn cael ei ddal mewn cyfrif cadw nes bydd yr achos wedi dod i ben. Telir llog i gleientiaid a ariannwyd drwy gyfeirio at gyfradd ryng-fanciol Llundain.

Mae arian y mae'r LAA yn ei dderbyn mewn perthynas â chyfraniadau CCMT yn cael ei ddal nes bydd y dyfarniad terfynol wedi'i roi a chostau'r achos wedi'u pennu. Ad-delir cyfraniadau i ymgeiswyr a gafwyd yn ddi-euog, yn cynnwys llog o 2% y flwyddyn o'r dyddiad yr oedd yr LAA wedi derbyn y cyfraniad. Mae gweddill arian y cyfraniadau'n cael ei ddal fel arian parod.

**Risg credyd**

Risg credyd yw'r risg na fydd partïon i offerynnau ariannol yn perfformio'n unol â thelerau'r contract neu offeryn. Mae'r LAA yn agored i risg credyd wrth ddelio â chleientiaid a ariannwyd a chyflenwyr ac oddi wrth weithgareddau ariannu penodol.

Ceir y risg credyd y mae'n agored iddi yn uniongyrchol oddi wrth offerynnau ariannol yn yr offerynnau hynny sydd â gwerth teg cadarnhaol net yn ôl y parti iddynt ar 31 Mawrth 2017.

Mae'r LAA yn credu mai'r risg credyd fwyaf y mae'n agored iddi yw:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 10,894 | 16,192 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 135,918 | 133,778 |
| Asedau trydydd partïon | 17,079 | 18,605 |
| | 163,891 | 168,575 |

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yw balansau banc sy'n cael eu dal gyda banciau masnachol, yn cynnwys y rheini a weinyddir drwy'r GBS, gydag adegau aeddfedu gwreiddiol o dri mis neu lai. Ar 31 Mawrth 2017 nid oedd gwarantau ariannol na rhwymedigaethau trydydd parti, heblaw am symiau sy'n cael eu dal fel iawndal mewn cyfrifon cadw a CCMT, a oedd yn cynyddu risg credyd yr asedau ariannol a nodwyd uchod.

**Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill**

Mae risg gynhenid i'r LAA mewn symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill, gan nad yw wedi rhagdueddu at ddulliau syml o gasglu arian parod.

Mae'r LAA yn cydnabod y risg hon ac yn ei lliniaru yn achos dyledion am ffioedd statudol, lle gellir gohirio camau gorfodi i adennill y ddyled, drwy osod pridiannau tir a defnyddio polisïau rheoli credyd gweithredol i adennill dyledion sydd heb eu sicrhau. Mewn rhai achosion, mae gweithgareddau casglu dyledion yn cael eu gosod o dan gontract i gasglwyr dyledion masnachol.

Mae maint y risg wedi'i dangos yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy sy'n dod i gyfanswm o £206.0 miliwn (2015-16: £202.9 miliwn).

Mae mwyafrif symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yr LAA yn ganlyniad i ffioedd statudol, sef £77.2 miliwn (2015-16: £79.4 miliwn) o gyfanswm gweddill y symiau derbyniadwy ar ôl lleihad mewn gwerth o £135.9 miliwn (2015-16: £133.8 miliwn).

Mae cyfran helaeth o'r rhain wedi'u sicrhau ar eiddo a bydd y setliad yn cael ei ohirio nes bydd yr eiddo'n cael ei werthu. Mae'r rhain, ynghyd â symiau derbyniadwy eraill, yn cario darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth sy'n seiliedig ar y derbyniadau a ddisgwylir ar ôl setlo.

Mae'r LAA yn darparu ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy ar sail profiad hanesyddol o gasglu arian parod ac asesiad gan reolwyr o'r tebygolrwydd o'u hadennill, ar gyfer pob categori o ddyled.

Mae model yr LAA ar gyfer lleihad mewn gwerth yn defnyddio proffiliau adennill hanesyddol yn ôl categori dyled i amcangyfrif y ddarpariaeth sydd ei hangen ar gyfer balansau o ddyledion. Mae'r model lleihad mewn gwerth wedi'i seilio ar ragdybiaethau penodol sy'n cynnwys: oed y ddyled, derbyn incwm yn erbyn dyled yn gyson drwy'r flwyddyn, a'r gyfradd disgowntio nominal o 3.7% a'r gyfradd disgowntio real o 0.7% (2015-16: cyfradd nominal o 3.7% a chyfradd real o 0.7%.

**Rhoi prawf ar ragdybiaethau**

Ystyriwyd effaith y rhagdybiaethau rhesymol gwahanol canlynol yn lle'r rhagdybiaethau hyn:

- derbyn incwm yn gyson drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag ar ddiwedd y flwyddyn
- defnyddio'r derbyniadau incwm a ragwelir i gyfrifo llifau arian parod +/ – 10% yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth
- cyfradd disgowntio o +/-1% (gosodir y gyfradd hon gan Drysorlys EM)

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | | CYNNYDD/(LLEIHAD) MEWN ASEDAU ARIANNOL NET | |
|---|---|---|---|
| | Assumption | 2016-17 £m | 2015-16 £m |
| Derbyn incwm | Yn gyson drwy'r flwyddyn | 1.5 | 1.1 |
| Derbyniadau incwm a ragwelir | +10% | 10.2 | 10.4 |
| Derbyniadau incwm a ragwelir | -10% | (10.1) | (11.2) |
| Cyfradd disgowntio | +1% | (5.4) | (5.2) |
| Cyfradd disgowntio | -1% | 6.0 | 5.3 |

Ar sail y rhagdybiaethau rhesymol gwahanol hyn, byddai gwerth teg yr asedau ariannol ar 31 Mawrth 2017 yn gallu bod yn £17.7 miliwn (2015-16: £16.8 miliwn) yn uwch neu'n £15.5 miliwn (2015-16: £16.4 miliwn) yn is.

Adolygir y rhagdybiaethau bob blwyddyn a'u newid os bydd rheolwyr yn credu bod rhagdybiaethau gwahanol yn adlewyrchu'r tueddiadau sylfaenol yn well.

**Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau**

Mae'r LAA yn defnyddio modelau prisio cymhleth i amcangyfrif gwerth symiau sydd heb eu bilio mewn achosion byw. Mae pob rhagdybiaeth ym modelau'r darpariaethau wedi'i nodi, newid rhesymol wedi'i nodi ar ei chyfer a'r effaith ar y balans terfynol am waith sy'n mynd rhagddo wedi'i chyfrifo. Mae rhagdybiaethau wedi'u newid i gynrychioli'r rheini y byddai'r model wedi'u defnyddio ar sail tueddiadau mewn data hanesyddol neu wedi'u hamrywio o ganran y mae rheolwyr yn credu ei bod yn briodol i ddangos yr effaith ar y ddarpariaeth.

Yn achos pob rhagdybiaeth sy'n cael ei dadansoddi o ran sensitifrwydd, dim ond y rhagdybiaeth honno a newidir. Os bydd dwy neu ragor o ragdybiaethau'n cael eu newid yr un pryd, bydd gwir sensitifrwydd y newid mewn rhagdybiaethau'n cael ei guddio oherwydd y cydberthnasau posibl rhwng rhagdybiaethau.

Pennwyd y rhagdybiaethau gwahanol rhesymol isod drwy arsylwi'r uchafbwyntiau ac isafbwyntiau hanesyddol yn y data a ddefnyddiwyd yn y gwahanol fodelau ar ôl eu haddasu ar sail tueddiadau rhagamcanol.

Mae effaith y rhagdybiaethau gwahanol rhesymol ar y mewnbynnau hyn wedi'i mesur isod:

- proffiliau prisiau +7.8% i -7.2%
- hyd achosion +8.1% i -6.9%
- rhagolwg o wariant +3.8% i -10.4%

### Rhoi prawf ar ragdybiaethau

| | CYNNYDD YN YR ATEBOLRWYDD ARIANNOL NET | | (LLEIHAD) YN YR ATEBOLRWYDD ARIANNOL NET | |
|---|---|---|---|---|
| | % | £m | % | £m |
| Proffiliau prisiau | 7.8% | 4.1 | -7.2% | (3.8) |
| Hyd achosion | 8.1% | 29.1 | -6.9% | (24.6) |
| Rhagolwg o wariant | 3.8% | 12.0 | -10.4% | (32.5) |

Ar sail y rhagdybiaethau rhesymol gwahanol hyn, byddai gwerth y gwaith sy'n mynd rhagddo ar 31 Mawrth 2017 yn gallu bod yn £45.2 miliwn (2015-16: £17.1 miliwn) yn uwch neu'n gymaint â £60.9 miliwn (2015-16: £24.6 miliwn) yn is.

Nid yw'r rhagdybiaethau uchod yn cynnwys y newidynnau enghreifftiol a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo ar Gynrychiolaeth Sifil o £305 miliwn (2015-16: £311 miliwn).

### Darpariaeth ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo ar Gynrychiolaeth Sifil

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwaith sy'n mynd rhagddo ar Gynrychiolaeth Sifil yn cael ei chyfrifo fesul achos ar sail patrymau gweithgarwch y gorffennol, gyda chanlyniadau lluosog dichonol o ran hyd a chost. Mae'r cyfrifiadau wedi'u rhannu rhwng y gwahanol ffrydiau gwariant a rhwng gwahanol gerrig milltir yng nghylch bywyd yr achos. Mae'r model yn amcangyfrif gweithgarwch tan y digwyddiad ariannol nesaf ym mhob ffrwd gwariant, gan adlewyrchu'r wir sefyllfa o ran amseru biliau.

Mae effaith y rhagdybiaethau gwahanol rhesymol ar fewnbynnau'r model wedi'i mesur isod:

- newid y proffil cost a hyd ar sail data tan fis Mawrth 2016
- hyd bilio +20 niwrnod i -20 niwrnod
- rhagdybiaeth terfynu oherwydd diffyg gweithgarwch +180 diwrnod

### Rhoi prawf ar ragdybiaethau

| RHAGDYBIAETHAU A BROFWYD | | CYNNYDD | | (LLEIHAD) |
|---|---|---|---|---|
| | Rhagdybiaeth | £m | Rhagdybiaeth | £m |
| Newid y proffil cost a hyd | Proffiliau Mawrth 2016 | 22.1 | Proffiliau Mawrth 2016 | (22.1) |
| Hyd bilio | +20 niwrnod | 7.4 | -20 niwrnod | (5.2) |
| Rhagdybiaeth ar sail diffyg gweithgarwch | +180 diwrnod | 30.3 | Amh | Amh |

Mae’r mewnbynnau uchod wedi’u seilio ar ddata achosion, a’u haddasu ar sail barn rheolwyr, er enghraifft, drwy ddewis nifer y blynyddoedd o ddata hanesyddol i’w defnyddio i greu proffiliau hanesyddol. Dylid nodi bod sensitifrwydd cynhenid y ddarpariaeth ar gyfer gwaith sy’n mynd rhagddo ar Gynrychiolaeth Sifil yn golygu bod symudiadau cymharol fach mewn canrannau yn y mewnbynnau uchod yn gallu arwain at amcangyfrifon sylweddol wahanol. Adolygir yr holl ragdybiaethau’n rheolaidd a’u newid os oes digon o dystiolaeth bod hynny’n briodol.

Ar sail y rhagdybiaethau rhesymol gwahanol hyn, byddai gwerth teg y rhwymedigaethau ariannol ar 31 Mawrth 2017 yn gallu bod yn gymaint â £59.8 miliwn (2015-16: £36.1 miliwn) yn uwch neu’n gymaint â £27.3 miliwn (2015-16: £15.5 miliwn) yn is.

### Arian parod

Cedwir balansau o arian parod gyda banciau buddsoddi cryf. Dewisir banciau ar sail eu statws credyd a’u gallu i gwrdd ag anghenion bancio’r LAA o ddydd i ddydd.  Mae’r sgoriau credyd yn cael eu monitro’n barhaus. Nid yw’r LAA wedi cofnodi lleihad yng ngwerth arian parod neu’r hyn sy’n cyfateb iddo, ac ni nodwyd unrhyw anawsterau o ran y gallu i adennill balansau o’r fath. Fel arfer, gellir adennill eitemau o’r fath ar alwad neu yn ôl trefniadau bancio arferol.

## Nodyn – 11 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| SYMIAU'N DOD YN DDYLEDUS O FEWN UN FLWYDDYN: | | |
| Dyled gros | 341,939 | 336,657 |
| Darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth | (206,021) | (202,879) |
| Cyfanswm | 135,918 | 133,778 |
| | | |
| YN ÔL CYDRAN: | | |
| Cyfraniadau dyledus oddi wrth gleientiaid a ariannwyd | 7,090 | 6,634 |
| Costau i'w hadennill | 1,005 | 800 |
| Iawndal | 286 | 131 |
| Symiau dyledus oddi wrth ddarparwyr gwasanaethau | 17,311 | 20,161 |
| Adennill costau amddiffyn | 29,875 | 22,997 |
| Rhagdalu ac incwm a gronnwyd | 690 | 683 |
| Dyledwyr o fewn yr adran | 994 | 2,169 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 1,500 | 761 |
| Ffioedd statudol a llog | 77,167 | 79,442 |
| | 135,918 | 133,778 |

*O dan Ddeddf Cymorth Cyfreithiol 1974, Deddf Cymorth Cyfreithiol 1988, Deddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, a Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, lle mae cleientiaid a ariannwyd wedi adennill neu gadw eiddo yn hytrach na chael iawndal, gellir sicrhau costau adferadwy drwy osod arwystl ar yr eiddo. O dan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol 2000 fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau (Ariannol) Gwasanaethau Cyfreithiol Cymunedol (Diwygio) 2005 a Rheoliadau Cymorth Cyfreithiol Sifil (Tâl Statudol) 2013, mae rhai o'r dyledion hyn yn ddyledion sy'n dwyn llog lle bydd llog yn ddyledus ar y balans dyledus ar gyfradd o 8.0% y flwyddyn.*

Wrth brisio masnach a symiau derbyniadwy eraill, ceir elfen o amcangyfrif sy'n cael ei thrafod ymhellach yn y nodyn ar bennu a rheoli risg ariannol (nodyn 10) i'r datganiadau ariannol hyn.

Swm net y ddyled am ffioedd statudol yw:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Ffioedd statudol | 51,933 | 55,381 |
| Llog a gronnwyd hyd yn hyn | 25,234 | 24,061 |
| | 77,167 | 79,442 |

Mae'r holl symiau derbyniadwy yn cael eu datgelu fel rhai sy'n ddyledus o fewn un flwyddyn. Fodd bynnag, yn achos dyledion am ffioedd statudol, gellir gohirio camau gorfodi i adennill y ddyled. Gall gymryd mwy na blwyddyn i adennill ad-daliadau o ddyledion a ohiriwyd.

## Nodyn – 12 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 16,192 | 5,752 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | (5,298) | 10,440 |
| | 10,894 | 16,192 |

Roedd y balansau ar 31 Mawrth 2017 wedi'u dal yn:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 5,513 | 8,718 |
| Banciau masnachol | 5,381 | 7,474 |
| Cyfanswm arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 10,894 | 16,192 |

## Nodyn – 13 Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn: | £000 | £000 |
| Symiau sy'n ddyledus i gyfreithwyr, cwnselwyr ac asiantaethau cynghori | 71,642 | 104,215 |
| Ad-daliadau o gyfraniadau sy'n ddyledus i gleientiaid a ariannwyd | 1,572 | 2,671 |
| Croniadau ac incwm a ohiriwyd | 99,696 | 112,408 |
| Treth arall a chostau nawdd cymdeithasol | 1,652 | 1,054 |
| Credydwyr o fewn yr adran | 13,921 | 16,607 |
| Symiau taladwy eraill | 8,086 | 4,351 |
| | 196,569 | 241,306 |

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl un flwyddyn: | £000 | £000 |
| Croniadau ac incwm a ohiriwyd | 571 | 558 |
| | 571 | 558 |

## Nodyn – 14 Gwerthoedd teg

Isod dangosir symiau cario a gwerthoedd teg asedau a rhwymedigaethau ariannol yr LAA sydd yn y datganiadau ariannol.

Mae'r LAA yn credu bod y symiau cario ar gyfer arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo, symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill yn agos i'w gwerth teg am fod adegau aeddfedu'r offerynnau hyn yn rhai tymor byr.

| Symiau cario a gwerthoedd teg | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 135,918 | 133,778 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 10,894 | 16,192 |
| Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau eraill | (197,140) | (241,864) |
| Ar 31 Mawrth | (50,328) | (91,894) |

Mae masnach a symiau derbyniadwy eraill wedi'u disgowntio dros y cyfnod rhwng y dyddiad adrodd a'r dyddiad casglu disgwyliedig. Mae hyn yn cael effaith sylweddol ar eu gwerth presennol.

Er mwyn darparu ar gyfer yr effaith hon o werth arian dros amser, defnyddiwyd techneg amcangyfrif sy'n disgowntio'r holl falansau derbyniadwy dros gyfnodau sy'n gymesur â phatrymau hanesyddol o lifau arian parod ar gyfer pob dosbarth o symiau derbyniadwy ar gyfradd nominal o 3.7% a chyfradd real o 0.7% (2015-16: cyfradd nominal o 3.7%, cyfradd real o 0.7%). Y gyfradd disgowntio hon yw'r un a ddefnyddir gan Drysorlys EM. Mae'r dechneg amcangyfrif a ddefnyddiwyd yn rhagdybio y bydd llifau arian parod yn dilyn tueddiadau hanesyddol o ran amseru.

### Hierarchaeth gwerthoedd teg

Mae'r LAA yn defnyddio'r hierarchaeth ganlynol i bennu a datgelu gwerth teg offerynnau ariannol drwy dechneg prisio:

Lefel 1: prisiau wedi'u rhestru (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau o'r un math

Lefel 2: technegau eraill lle gellir arsylwi'n uniongyrchol neu anuniongyrchol ar yr holl fewnbynnau sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg a gofnodwyd

Lefel 3: technegau sy'n defnyddio mewnbynnau sy'n cael effaith sylweddol ar y gwerth teg a gofnodwyd sydd heb eu seilio ar ddata marchnad y gellir eu harsylwi

Mae'r holl asedau a rhwymedigaethau ariannol a fesurwyd ar eu gwerth teg yn dod o fewn lefel 3.

## Nodyn – 15 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU DYLEDUS AR ACHOSION A ARIANNWYD | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU DYLEDUS YNG NGHYSWLLT ACHOSION A ARIANNWYD YN BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER YMADAEL CYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Ar 1 Ebrill 2016 | 585,208 | 5,194 | 1,136 | 2,307 | 316 | 594,161 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 1,707,538 | 37,074 | 803 | 62 | - | 1,745,477 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (1,675,533) | (34,213) | (596) | - | (122) | (1,710,464) |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | (243) | - | (194) | (437) |
| Ar 31 Mawrth 2017 | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 2,369 | - | 628,737 |

| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2015 | 587,593 | 6,223 | 265 | 2,440 | - | 596,521 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 1,656,718 | 37,121 | 1,259 | 70 | 316 | 1,695,484 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (1,659,103) | (38,150) | (251) | (86) | - | (1,697,590) |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | - | - | (137) | (91) | - | (228) |
| Dad-ddirwyn disgownt | - | - | - | (26) | - | (26) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 585,208 | 5,194 | 1,136 | 2,307 | 316 | 594,161 |

| | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU DYLEDUS AR ACHOSION A ARIANNWYD | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU DYLEDUS YNG NGHYSWLLT ACHOSION A ARIANNWYD YN BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER YMADAEL CYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau a ddisgowntiwyd | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 306 | - | 626,674 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 1,790 | - | 1,790 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 273 | - | 273 |
| Balans ar 31 Mawrth 2017 | 617,213 | 8,055 | 1,100 | 2,369 | - | 628,737 |

| | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU DYLEDUS AR ACHOSION A ARIANNWYD | DARPARIAETH AR GYFER SYMIAU DYLEDUS YNG NGHYSWLLT ACHOSION A ARIANNWYD YN BREIFAT (CRONFEYDD CANOLOG) | DARPARIAETH AR GYFER COSTAU CYFREITHIOL | DARPARIAETH AR GYFER DADFEILIO | DARPARIAETH AR GYFER YMADAEL CYNNAR | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig llifau a ddisgowntiwyd | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 585,208 | 5,194 | 1,136 | 479 | 316 | 592,333 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 1,552 | - | 1,552 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - | - | 276 | - | 276 |
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | 585,208 | 5,194 | 1,136 | 2,307 | 316 | 594,161 |

Mae’r LAA yn amcangyfrif gwerth achosion byw sydd heb eu bilio a gorchmynion am gostau’r amddiffyniad sydd heb eu bilio bob blwyddyn er mwyn cael y symiau a ddatgelir fel darpariaeth yn y datganiadau ariannol.  Mae’r swm yn amcangyfrif o’r gwariant sydd ei angen i setlo unrhyw rwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Wrth amcangyfrif y ddarpariaeth, mae’r LAA wedi mabwysiadu technegau mesur darbodus sy’n seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael ac mae’r rhain wedi’u trafod ymhellach yn nodyn 10 i’r datganiadau ariannol hyn.

Ar sail data hanesyddol am hyd cyfartalog achosion ac oedi cyfartalog rhwng dyddiad dyfarnu gorchymyn costau’r amddiffyniad a dyddiad talu’r bil, disgwylir y bydd bron y cyfan o’r costau am y symiau sy’n ddyledus ar achosion sydd heb eu bilio a gorchmynion costau’r amddiffyniad sydd heb eu bilio yn cael eu hysgwyddo o fewn y 12 mis nesaf, felly ni ddefnyddiwyd unrhyw ddisgowntio.

Darparwyd ar gyfer costau cyfreithiol sy’n gysylltiedig ag ymgyfreitha sy’n parhau. Darparwyd ar gyfer amcangyfrifon o gostau dadfeilio ar adeiladau lesddaliadol. Mae’r ddarpariaeth wedi’i hamcangyfrif drwy gyfeirio at gyflwr a lleoliad yr adeiladau a gofynion y les berthnasol.

Disgwylir y bydd costau’r darpariaethau ar gyfer dadfeilio yn cael eu hysgwyddo rhwng 2017 a 2026 wrth i bob les ddod i ben.

## Nodyn – 16 Ymrwymiadau dan lesoedd

**Lesoedd gweithredu**
Dangosir cyfanswm y taliadau lesio lleiaf o dan lesoedd gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| Y RHWYMEDIGAETHAU O DAN LESOEDD GWEITHREDU YW: | TIR AC ADEILADAU | TIR AC ADEILADAU |
|---|---|---|
| | 2016-17 | 2015-16 |
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 2,559 | 2,289 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 2,821 | 3,389 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 794 | 982 |
| | 6,174 | 6,660 |

O dan delerau'r cytundebau lesio, nid yw unrhyw renti digwyddiadol yn daladwy ac nid oes hawliau i brynu. Cyfrifwyd yr ymrwymiadau ar sail y cyfnod sy'n weddill ar y lesoedd.

## Nodyn – 17 Ymrwymiadau ariannol

Cyfanswm y taliadau y mae'r LAA wedi ymrwymo iddynt yw:

| | 2016-17 | 2015-16 |
|---|---|---|
| | £000 | £000 |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 1,946 | 1,768 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | 725 | 0 |
| | 2,671 | 1,768 |

## Nodyn – 18 Asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol

Ar 31 Mawrth 2017, nifer yr hawliadau am ddigollediad yr oedd yr LAA yn ymchwilio iddynt oedd dim (2015-16: 33 o hawliadau am ddigolledu gydag atebolrwydd dichonol o £239mil).

Yn ogystal â hyn, mae pedwar tribiwnlys cyflogaeth ac un her gyfreithiol yn mynd rhagddynt sydd ar wahanol gamau yn y broses penderfynu.

Mae gan yr LAA ddau ased digwyddiadol mewn perthynas â gorchmynion costau o achosion cyfreithiol. Cyfanswm eu gwerth yw £221mil (2015-16: pedwar gyda chyfanswm gwerth o £320mil).

## Nodyn – 19 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r LAA yn asiantaeth weithredol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n cael ei hystyried yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, roedd yr LAA wedi cael gwahanol drafodion sylweddol â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn ogystal â hyn, mae'r LAA wedi cael gwahanol drafodion sylweddol â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM), sy'n asiantaeth i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mewn perthynas â gwaith a ddarparwyd gan GLlTEM ar ran yr LAA.

Ar ben hynny, mae'r LAA wedi cael nifer o drafodion ag adrannau llywodraeth eraill a chyrff llywodraeth ganolog. Cafwyd y trafodion mwyaf sylweddol o'r rhain â Chyllid a Thollau EM a'r PCSPS.

Yn ystod 2016-17, nid yw unrhyw Aelodau o'r Bwrdd na phartïon cysylltiedig eraill wedi ymgymryd â thrafodion â'r LAA.

## Nodyn – 20 Asedau trydydd parti

Mae'r LAA yn dal dyfarndaliadau iawndal a chyfraniadau CCMT ar ran cleientiaid a ariannwyd (gweler nodyn 1k).

Mae crynodeb isod o gyfanswm yr asedau trydydd parti y mae'r LAA yn eu dal:

| | 31 MAWRTH 2016 | MEWNLIFAU GROS | ALL-LIFAU GROS | 31 MAWRTH 2017 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Iawndal * | 7,410 | 5,802 | (7,049) | 6,163 |
| Prawf Moddion Llys y Goron ** | 11,195 | 21,553 | (21,832) | 10,916 |
| Cyfanswm yr asedau trydydd parti a ddelir fel arian parod | 18,605 | 27,355 | (28,881) | 17,079 |

* *Mae'r LAA yn derbyn iawndal a ddyfarnwyd wrth aros i'r achos gael ei setlo'n derfynol a chyfraniadau ariannol gan gleientiaid tuag at gostau cyfreithiol .*

** *Mae'r LAA yn derbyn cyfraniadau tuag at gostau wrth ddisgwyl y dyfarniad terfynol a chyfrifo cyfanswm costau'r achos. Canlyniad yr achos fydd yn pennu a fydd yr ased trydydd parti yn cael ei drosglwyddo i'r LAA neu'n cael ei ddychwelyd i'r trydydd parti..*

## Nodyn – 21 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Yn unol â gofynion IAS 10 'Events after the Reporting Period', ystyrir digwyddiadau hyd at y dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi. Y dehongliad o hynny yw dyddiad tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd i'w cofnodi.

ISBN 978-1-4741-4591-6

9 781474 145916